Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd.

Cyf. 4. Rhif 1.] IONAWR, 1904. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Nodion y Mis.
Rev. Stephenson Hunter.
J. Morgan Gibbon, Llundain.
Adgyfodiad y Diafol.
E. Gwilym Evans, B.A., Chesterfield.
Robinson Crusoe.
Gan T. C. U.
Hen Adgofion.
Dewi Hefin.
Adglygiad Breuddwyd Effro.
Gweinidog y Mynydd.
Gan Tudfathar.
Priodasau. Marwgofion.
Manion ac Hanesion.
Congl yr Awen.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a chofnodion eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

J. G. E., Rhydychen; D. M. J., Cwrtnewydd; J. J., Castell Pencarreg; J. P., St. Clears; Parch. O. H., Hanley; J. M., Tonypandy; C. E., Merthyr; S. H., Penderyn; D. R. D., Cwrtnewydd; Mrs. J. L., Pontypridd; J. T., Rhymney; Dr. R., Aberteifi; J. E., Aberdâr; J. D., Pantyffynon; J. J., Llandyssul; D. M. D., Aberdâr; Pr. E., Caerfyrddin; H. H., Caerfyrddin; W. D., Llanegryn; J. T., Vrondoley; S. D., Coedpark; W. D., Penbryn, Cribyn; J. L., Dowlais; J. J., Llandilo; G. J., Abergorlech; S. J., B.A., Manchester; D. J., Aberystwyth; E. O. H., Glasgow; D. J., Tydwgi; Parch. H. R., Abercynon; J. R., Pontbrenllwyd; E. H., Dihewid; R. J., Tregaron; J. E., Newport; T. D. T. Lindsey, U.D.A.; W. J., Cefncoed; D. D., Talsarn; E. E. J., Corwen.

LLYFRAU CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN

J. D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul.

WEDROSIA:

Yn cynwys y Nofel Fuddugol yn Eisteddfod Mountain Ash, gan T. WEDROS EVANS. . Un o'r llyfrau mwyaf difyr yn yr iaith Gymraeg.

PRIS 6c.; trwy y *Post*, 7c.

Hanes PLWYFI LLANGELER a PHENBOYR

Gan DANIEL E. JONES.

Buddugol yn Eisteddfod Drefach-Velindre, 1897. Wedi ei adolygu a'i helaethu, a chyda *Map* o'r Plwyfi.

Yn rhad trwy y *Post* am 3s. 6ch.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

GOMERIAN PRESS

("YR YMOFYNYDD" OFFICE),

LLANDYSSUL.

JOHN D. LEWIS,

STEAM PRINTER, BOOKSELLER, ETC.

Every Description of Printing undertaken.

Billheads.	Price Lists.	Posters.
Invoices.	Chapel Reports.	Tickets.
Letter Paper.	Books.	Visiting Cards.
Memorandums.	Pamphlets.	Wedding Cards.
Envelopes.	Circulars.	Memorial Cards.
Luggage Labels.	Handbills.	Solfa Music.
Catalogues.	Programmes.	Duplicate Books

Good Work. *Moderate Prices.* *Send for Estimates.*

A varied Selection of Stationery and Account Books by the Leading Makers, Games, Toys and Prize Books for Children.

Noted for Wall Papers.

CHANNING HOUSE,

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress : Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term : Boarders, £17 17s., including Free Laundry ; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d. ; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding.

ATHROFA PRIFYSGOL CYMRU,

ABERYSTWYTH.

(Un o Golegau Prifysgol Cymru.)

Llywydd : Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Rendel.
Prifathraw : T. F. Roberts, M.A. (Oxon.).

Cynwysa y cwrs o Addysg y parotoad angenrheidiol am Raddau yn y Celfyddydau (Arts) Gwyddoniaeth a Chyfraith yn Mhrifysgol Cymru a bydd hefyd yn wasanaethgar i Efrydwyr yn parotoi ar gyfer Graddau yn y Celfyddydau (Arts) ac mewn Gwyddoniaeth yn Mhrifysgol Llundain, ar gyfer arholiadau yn Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn gystal ac astudiaeth Feddygol yno ac mewn Prifysgolion eraill.

Yn yr Adran Amaethyddol trefnir parotoad neillduol ar gyfer arholiadau y Gymdeithas Amaethyddol a Thystysgrif y Surveyors' Institution

Y Tal Blynyddol yn Adranau y Celfyddydau a Gwyddor yw £10 gydag ychydig yn rhagor am Addysg Ymarferol yn y 'Laboratories.'

Dyfarnir Ysgoloriaethau gwerth o £40 i £0 ar ddechreu'r tymhor yn mis Medi bob blwyddyn.

Perthyn i'r Coleg, 'Gymnasium,' Cychod, Recreation Grounds,' &c.

Lletya'r Efrydwyr mewn tai yn y Dref neu yn Neuadd yr Efrydwyr—y Proff. Marshall, Warden; a'r Efrydesau mewn neuadd eang Alexandra Hall, o dan arolygiaeth Miss E A. Carpenter.

Am Prospectus, a manylion neillduol ynghylch yr Adranau Normalaidd, ac Amaethyddol ac Adran yr Athrawon Canolradd, ymofyner a

T. Mortimer Green, Registrar.

T. E. JONES & CO.

(ESTABLISHED 1852)

Corn Merchants, Wholesale and Retail Grocers,

The Stores and Ffrwdwen Mills, Llandyssul.

Wheat Plant of the most modern type newly set up.

Farmers' Wheat manufactured into first class Flour.

Home Brand Flour as well as Healing's retailed at the lowest prices.

Glasgow House, Lampeter.

Men's and Boys Overcoats, Hats, Caps, Umbrellas.

D. J. EVANS,

CLOTHIER,
GENT'S MERCER, &c.

Waterproofs, Hosiery, Shirts, Ties, Collars, Gloves, &c.

Suits and Single Garments made to measure.

ABERCERDYN MILLS.

. . . NOTED FOR . . .

Real Welsh Flannel, Cloths, Ladies' Dresses,

BLANKETS, &c.

APPLY TO M. EVANS & SON, OR TO

D. EVANS, Auctioneer & Valuer,
Glan Teifi, LLANDYSSUL.

CHRISTR. THOMAS & BROS. Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS.

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS & BROS. LTD.,
BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

COMMERCE HOUSE

LAMPETER.

D. NUN DAVIES,

. . FOR . .

Millinery, Capes, Jackets, Costumes & Furs

OF THE NEWEST STYLES.

Y 'Postal Mission' Undodaidd Cymreig.

Ceir y Traethodynau (*Tracts*) canlynol yn rhad trwy y *Post:*

'Y Gwyliedydd, Beth am y Nos?'

Gan y Parch. R. J. Jones, M.A.

'Crefydd Cymru Fydd'

Gan y Parch. W. James, B.A.

'Lle Teimlad a Rheswm mewn Crefydd,' a

'Ddoe, Heddyw, ac Yfory mewn Crefydd'

Y ddau gan y Parch. W. Tudor Jones, F.R.G.S.

Rhoddir benthyg y ddau Lyfryn canlynol yn rhydd trwy'r *Post:*

'Banau Ffydd Undodwr'

Gan Dr. Freeman Clarke.

'Yn ol at Iesu'

Gan y Parch. R. A. Armstrong, B.A.

Y ddau yn yr iaith Gymraeg.

Anfoner at—

Y Parch. LEWIS WILLIAMS,

Talsarn, R.S.O., Cardiganshire.

YR ✵ YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hvn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1904. [CYF. IV. RHIF 1.

NODION Y MIS.

BLWYDDYN Newydd Dda. Mae'r olwyn wedi cwblhau tro newydd, ac wedi cludo trigolion daear yn nes i'r dirgelwch orchuddia derfyn bywyd. Dysgir ni gyfrif ein dyddiau drwy gyfrwng y blynyddau. Dirwynir bywyd allan o fynwes y tragwyddol yn eiliadau, oriau, dyddiau a blynyddau; a phan y daw triugain a deg neu bedwar ugain mlynedd i'r terfyn, tyr yr edefyn, a'r bywyd a ddychwel i fynwes yr Anfeidrol. Tueddiad y natur ddynol, fodd bynag, yw mesur bywyd yn ngoleu cyfnodau pwysig yn ei hanes. Ar un adeg y gwyliau i ddathlu bywydau y seintiau ddefnyddid fel ffiniau ar daith bywyd. Ac mae yr arferiad heddyw i son am wyl Ddewi, gwyl Fair, gwyl Mihangel yn ein hadgofio o'r amser, pan oedd ein hen deidiau yn aelodau o Eglwys Rhufain. Yn Sir Aberteifi, mae y gwahanol ffeiriau yn foddion parod i ddosranu amser, ac mae ffair Beder, ffair Dalis, ffair "Santese," ffair gwyl Barna, yn sefyll fel ffiniau amlwg yn mywydau y trigolion.

"Blwyddyn Newydd Da." Dyma ein dymuniad i bob darllenydd o'r YMOFYNYDD. Blwyddyn yn llawn o ddaioni. I'r ieuainc, amser hau had da ar faes bywyd; i'r cano loed, cyfleustra i weithio yn rymus yn ngwinllan yr Arglwydd; i'r hen, adeg i fyfyrio yn dawel ar drothwy byd y dirgelwch. Os darfu i'r hen flwyddyn ganfod unrhyw ddarllenydd yn wael ei fyd ac isel ei gyflwr, bydded i'r flwyddyn hon ei weled yn codi o'r llwch fel y Phenix, ac ar edyn ymdrech a daioni yn esgyn i gymdeithas y seintiau, ac i gyfrinach a'r Dwyfol. Dymuna y Sais flwyddyn newydd hapus i'w gyfeillion. Os bydd y flwyddyn yn llawn daioni, fe fydd yn sicr o fod yn un hapus.

Mae cenhadaeth Torrey ac Alexander yn Llundain a Manceinion drosodd. Ymgeisiai y cenhadwyr gario allan eu gwaith ar yr un llinellau a Moody a Sankey. Ar ddechreu eu cenhadaeth yn Llundain, tystiolaethent eu bod yn cymeryd eu safle ar yr hen dybiau am ysprydoliaeth y Beibl. Yn ngwyneb y ffaith fod gwyddoniaeth ac ymchwiliadau i hanes y gorphenol, ac astudiaeth fanwl o'r Beibl ei hun wedi cyfnewid ein holl feddylddrychau am y modd mae Duw yn dadguddio ei hun i'r byd, gresyn meddwl fod neb yn gallu sefyll i fyny fel arweinwyr dynion, ac ar yr un pryd yn anwybyddu yn hollol wersi gwerthfawr ddysgwyd i'r byd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er yn cael ein synu yn hyn o beth, eto dymunwn rwydd hynt i'r cenhadwyr i ddwyn o dan ddylanwad Cristionogaeth rai o'r miloedd yn ein trefydd mawr sydd yn gwneud masnach a chyfoeth yn nod bywyd, a phleser yn dduw.

Wrth feddwl am genhadaeth Torrey ac Alexander, da yw cofio sylwadau y Parch. Ddr. John Watson, mewn araeth draddododd yn Lerpwl ychydig amser yn ol. Dywedodd Dr. Watson fod yr Efengylydd (*Evangelist*) yn yni marw (*spent force*) mor bell ag mae ei ddylanwad tu allan i'r eglwysi yn myn'd; ac fod ei ddulliau (*methods*) hynod yn hen ffashiwn ac yn methu apelio at feddyliau a chalonau yr ugeinfed ganrif. Mae sylwadau o'r fath ar adfywiad crefydd wedi codi cythrwfl nid bychan yn y wlad hon, ac yn America. Mae rhai yn cytuno, ac ereill yn myn'd mor bell a dyweyd, os gadewir yr hen ddull i fyn'd dros y bwrdd, anghofir y modd y darfu i Grist a'r Apostolion, gyda llwyddiant, hau hadau teyrnas nefoedd.

Adgofir ni, yn y cysylltiad hwn, am yr adeg y darfu i Moody a Sankey dalu ymweliad a Phrifysgol Yale, gyda'r bwriad i roddi ergydion marwol i syniadau cyfeiliornus oedd astudiaeth hanesyddol, ac uwchfeirniadaeth i ddwyn i fewn am y Beibl. Anelwyd cyflegrau dinystriol areithyddiaeth ar gestyll dysgeidiaeth, ac apeliwyd gyda hyawdledd tanllyd at gariad y myfyrwyr tuag at hen Feibl anwyl eu mamau, ond ofer fu yr ymdrech. Yr oedd y gwrandawiad gafwyd yn tystiolaethu nad oedd cydymdeimlad y Brifysgol ar ran y cenhadwyr; ac aeth yr ymchwiliadau Beiblaidd ar eu hynt fel pe na bai unrhyw ymdrech wedi ei gwneuthur i'w gyru i ddifancoll.

Pan osodwyd careg sylfaen, y City Temple, Llundain, i lawr yn 1873, rhoddodd Dr. Joseph Parker gipdrem ar y gwaith olygai gario allan yn yr adeilad newydd. Ni lwyddodd i gario y program hwn

allan yn ei gyfanrwydd. Pregethwr oedd Parker, ac yn hyn yr oedd yn llwyddiant mawr. O agoriad y Deml hyd ei farwolaeth, pregethodd Parker i rhyw dair mil o bobl bob Sul, ac i fil o bobl am ddeuddeg bob dydd Iau, hyd ei farwolaeth ychydig fisoedd yn ol. Yr oedd pregethu yn llwyddianus i gynulliadau o'r fath yn gofyn galluoedd tu hwnt i'r cyffredin. Ac yr oedd clywed Parker unwaith neu darllen hanes ei fywyd yn peru i ni gredu ein bod mewn cyffyrddiad a phersonoliaeth mawr a hynod.

Pan yn weinidog yn Banbury, aeth Parker allan i bregethu i'r cae criced, a dynoethodd mewn modd miniog arferion y bobl oedd yn camddefnyddio y Sabbath. Cyffrodd hyn eiddigedd rhai pobl, a phenderfynwyd rhoddi terfyn ar waith y pregethwr ieuanc yn aflonyddu ar eu heddwch a'u hawl i dreulio eu hamser yn y cae criced, os y mynent. Ceisiwyd boddi lleferydd y pregethwr gydag ysgrechiadau oerllyd a gwawdus. Chwifiwyd baner wen fawr o'i flaen, ar yr hon yr oedd darlun o Parker wedi ei dynu mewn parddu, gan law anghelfydd. Cariwyd y faner hon o flaen ffenestr ei dŷ, a bygythiwyd tynu ei breswylfod yn dipiau oddiamgylch ei glustiau. Ond ni lwyddwyd i gadw y pregethwr allan o'r cae. Casglodd ei gyfeillion oddiamgylch Parker, a daeth yr erledigaeth i derfyn, a llawer o'r erlidwyr yn aelodau o'i eglwys yn Banbury.

Pan dderbyniodd Parker alwad oddiwrth gynulleidfa gyfoethog eglwys Cavendish, Manceinion, i fod yn weinidog, gwrthododd ei derbyn am y rheswm fod saith cant o ddyled ar y capel newydd yn Banbury, ac nis gallai ymadael gydag anrhydedd nes i'r ddyled gael ei thalu. Yn mhen ychydig amser dyma'r alwad yn curo wrth ei ddrws yr ail waith, gyda'r cynyg oddiwrth eglwys Cavendish i glirio y ddyled oddiar y capel newydd yn Banbury os boddlonai Parker i dderbyn yr alwad. Cliriwyd y ddyled, a bu Parker yn weinidog yn Manceinion am rai blynyddau, cyn sefydlu yn Llundain. Yn awr mae y Parch. R. J. Campbell, ei olynydd, yn ceisio dwyn i ben brogram Dr. Parker, ac mae wedi cael Mr. J. Marshall Badger i'w gynorthwyo i gario allan waith da yn mywydau dynion ieuainc y brifddinas.

Yn y llyfr ardderchog, y "*Varieties of Religious Experience*," mae yr awdwr galluog, y Proff. William James, yn tynu ein sylw at osodiad o eiddo Francis W. Newman "fod gan Dduw ddau deulu o blant ar y ddaear, y rhai sydd wedi eu geni unwaith, a'r rhai sydd wedi eu hail-eni." I'r dosparth cyntaf y perthyna y meddwl iachus, o liw dysglaer-las y nefoedd,—y bywyd sydd yn dadblygu yn naturiol

fel blodeuyn tan wenau siriol yr haul. I'r ail ddosparth y perthyn y meddwl heintus,—yr enaid claf sydd yn gorfod pasio trwy ddyfnderoedd gwae a drygioni, ac yna trwy ymdrech ar ran yr ewyllys, a thrwy chwyldroad disymwth yn cael ei ail-eni i diriogaethau daioni, ac i feddiant o dangnefedd Duw.

Cred y Proff. James fod gan yr ail ddosparth, yr enaid claf, ar ol ei ail-eni, eangach gwelediad ysprydol na'r dosparth cyntaf—y meddwl iachus. Am Dr. Channing, un o seintiau yr Undodiaid, dyfyna y frawddeg hynod hon :—"Mae Dr. Channing yn cael ei gau allan o ffurf uwchaf bywyd crefyddol, oherwydd uniondeb (neu berffeithrwydd) rhyfeddol ei gymeriad." Yn ol y ddamcaniaeth ofnadwy hon, yn nesaf i'r nef y cyweiriwn ein bywydau, po ddysglaeriaf y llewyrcha y ddelw ddwyfol ynom, lleiaf o hyd yw ein *chance* o fod yn bobl grefyddol. Dywed Proff. James, pa fwyaf o ddrwg mewn ffurf doddedig (*evil in solution*) gynhwysa ein natur, mwy perffaith ac eang fydd ein gwelediad ysprydol.

Iesu o Nazareth, ein Hathraw anwyl, oedd anwyl Fab Duw. Pa faint o ddrwg mewn ffurf doddedig gynhwysai ei fywyd, tybed? Tyfodd Iesu yn naturiol mewn ffafr gyda Duw a dyn, ac nid oes hanes iddo basio trwy ddyfnderoedd erchyll gwae, a thruenusrwydd pechod a drygioni, ac yna gael ei ail-eni ar ddelw Duw. Ac nis gwyddom am neb oedd yn meddu cipdrem ysprydol mwy eang a pherffaith. A thueddir ni i gredu, yn groes i dystiolaeth y dysgedig Proff. James, mai anwyl feibion Duw, y rhai sydd yn dadblygu yn naturiol ar hyd yr un llinellau a Iesu, yw y rhai sydd yn medru gwneud ehediadau i ddirgelwch bywyd yr Yspryd Anherfynol.

Rhoddwyd y fraint i'r ysgrifenydd o ddyfod i gyffyrddiad ag un o'r cymeriadau puraf all Undodiaeth feithrin. Yr oedd llawer ystorm wedi chwythu ar y bywyd hwn, ond yr oedd yno, drwy yr oll, ymddiried diysgog yn Nuw; a phob amser yr oedd wedi aros yn nghysgod yr Hollalluog. Ar fwy nag un achlysur yr oedd goleuni o'r nef, tebyg i'r hwn ganfyddodd Paul ar ei ffordd i Damascus, wedi disgyn ar y bywyd hwn, ac wedi ei lanw a'r fath hyfrydwch sanctaidd, a thawelwch nefol, nes i'r dynol a'r dwyfol doddi i'w gilydd am ychydig eiliadau. Ac nid yw y goleuni dwyfol, oedd ganfyddadwy i lygad o gnawd, wedi pallu yn ei effeithiau hyd yr awr hon. Eto tyfiant graddol a sicr yw y bywyd hwn, ac nid yw yn gwybod dim am yr ail enedigaeth.

Bu farw Mr. Herbert Spencer, boreu dydd Mawrth, Rhagfyr 8fed, 1903, yn Brighton, yn 83 oed. Yr oedd yn athronydd, ac yn un o'r meddylwyr mwyaf coethedig gynyrchodd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid oedd erioed yn gryf ei iechyd, ond gosododd brogram o'i flaen o weithiau athronyddol, yr hwn a gariodd allan yn ystod ei oes hir, gyda dyfalbarhad a medrusrwydd dihafal.

UNITARIAN MINISTERS AS TEACHERS AND SCHOOL-MASTERS.

IX.—Rev. Stephenson Hunter, Principal of the Presbyterian College, Carmarthen.

Plato said—"My works are published, and they are not published." The same, though in another sense, may be said of Principal Hunter. He left behind no great work to keep his name alive. The facts of his life are soon told. Born near Belfast in 1803, he was educated first in the Crumlin Academy and then at Queen's College, Belfast. On leaving College, he became a master in the Academy at Crumlin in which as a boy he had been a scholar. In 1830 he was appointed pastor of the Unitarian Church at Wolverhampton, where he laboured for the next 30 years. Those were the good old times of the Corn Laws. But distance is absolutely necessary to lend enchantment to those days. It is certain at any rate that Hunter took an active part in the agitation that ended in the abolition of the Corn Laws. In 1860 he became a Professor at Carmarthen College and soon after, on the death of Dr. Lloyd in 1863, succeeded to the Principalship. In 1875 he died.

But when these meagre dates and facts have been chronicled, how little has been said, and also, how little can now be said. For he was not of those that cry or lift up, or cause their voice to be heard in the street. He knew nothing of the great modern art of advertisement. Like Martineau, he spent the best days of his life in teaching a few youths, and his only published works are the lives of those whom he taught and influenced.

I fear that I speak for many, when I confess that I have forgotten much that he taught, but I am sure that I speak for all his old students, when I say that I have never forgotten him. How plainly

one can see him in the mind's eye, in his fashion as he lived in the early seventies. It is a crisp October morning. The class, some twelve of us all told, gather in Hunter's room. It is a pleasant room with a friendly fire and a spacious window that looks out on the Vale of Towy, across the farm-house where Sir Richard Steele once lived, and gives a glimpse of Merlin Hill in the distance. But we have no leisure for literature or legend at the moment. Every

Rev. Stephenson Hunter.

man's eye is glued to his Greek Text, searching the Scriptures with a zeal, that if maintained at that temperature, would have produced a race of Tischendorfs and Westcotts. Presently the door opens and the Principal glides to his chair. He is a man of average stature. He is clothed in faultless black. He has the scholar's stoop of the shoulders. His hair is pure white. The skin, notably clean and fresh. The eyes are gentle to sad. The upper teeth are slightly prominent so that a smile seems to sit for ever on the lips. This is

however somewhat deceptive. The Principal can smile. But let no man presume. That face, with its noble brow and quiet, reserved eyes, is the face of a strong, kindly but serious man. As the lesson proceeds, he is wonderfully patient with the backward and the stupid. His nod stimulates the industrious and the clever. But he is hard on the lazy and the frivolous, and inexorable towards every indication of hypocrisy, affectation and meanness. Men go from Hunter's room carrying with them impressions that only a man who is at once a Christian and a gentleman can create.

Of course the majority of us were separated from the Principal by a wide gulf of creed. He was Unitarian; we were Congregationalists. At least we heard from others that he was a Unitarian. We even read on the notice board of the Unitarian Chapel that a Rev. Stephenson Hunter was its minister. But sometimes we did not recognise the "Rev. Stephenson Hunter" in *our* Mr. Hunter. Never by word or look did he tamper with any man's orthodoxy. Yet he could not prevent the outflow of influences, which without his knowing and without our knowing changed the spirit of our orthodoxy. As we read St. John's Gospel in his room, as he prayed with us in the library, a gracious benignant presence enfolded us. Without ceding a single jot or tittle of his creed, every man was constrained to admit to himself that more than one path leads to the Temple, and that Christianity like the New Jerusalem has many gates.

Contact with men like Hunter and Higginson, while it invalidated no man's evangelicalism, led to the shedding of all "damnatory clauses" as Mr. Gladstone said. The declaration of a prominent Free Church leader a few years ago, that he could not pray with a Unitarian, must have taken old Carmarthen men with a surprise akin to terror. For to be candid, in our College devotion Hunter was almost the only man with whom we did pray.

With regard to the great trouble that befell the College in my time, I have no desire to say anything at present. But I cannot pass over Mr. Hunter's courage and kindness in those dark days. He stood by the students when scarcely any one else took our part. He had resolved on making a great sacrifice, and had the worst come to the worst, he was prepared to complete our education himself. Happily wiser measures prevailed, but the crisis had served to show unsuspected depths of heroism and tenderness which those who beheld them can never forget. Indeed with such perfect Christian gentlemen as Morgan, Higginson and Hunter, the Carmarthen men of those far-off Victorian days had reason to be grateful. The longer I live, the more I value what I received from them, and I greatly appreciate the kindness which has permitted me to lay this wreath on my old master's grave.

J. Morgan Gibbon.

Stamford Hill Congregational Church, London.

ADGYFODIAD Y DIAFOL.

Odditan ymosodiadau duwinyddiaeth ryddfrydig yr haner can' mlynedd diweddaf clafychodd y diafol, bu farw ac fe'i claddwyd yn mynwent anwybodaeth ac ofergoeledd. Meddyliwyd ar y cyntaf y medrai y byd athronyddol a duwinyddol wneud y tro heb y person urddasol hwnw; er hyny clywir heddyw yn ein tir weddi ddwys am ei adgyfodiad os nad ar ei hen ddelw, o leiaf ar ryw ddelw. Dim ond y diafol fedr wneuthur ein bywydau yn werth eu byw. Nid oes Duw gwyn ei gymeriad, os nad oes hefyd ddiafol du ei gymeriad. Mae cred yn Nuw da yn anmhosibl os na chredir mewn rhyw fath o ddiafol hefyd.

Ol Traed y Diafol.

Cana Ceiriog am natur fel "Beibl arall Duw," ond fel yn Meibl yr Iuddewon felly yn Meibl natur, gwelir ol traed y diafol. Gwir fod natur yn brydferth ac yn haelionus. Gwyddom am degwch blodau'r meusydd a cherddoriaeth nant y mynydd; profasom lawer gwaith ddylanwad tawel y nos ar fôr a thir; ac nid yn gwbl ofer daeth atom y tymhorau gyda'u gwlaw a'u gwres; mae yna, yn wir, ddyfnder o ddduwdod yn natur; dydd i ddydd draetha ymadrodd Duw a nos i nos ddengys ei wybodaeth. Eithr os edrychwch yn agosach ac odditan llen dwyllodrus prydferthwch, fe ganfyddwch hefyd hagrwch a chreulondeb, anghyfiawnder a difaterwch. Os yw llygad y dydd yn brydferth ac yn ddiniwed, beth yw syched y wenci am waed gwirion? Os ydyw hedfa yr hebog drwy yr awyr yn destyn edmygedd, beth am yr aderyn bychan yn ei grafanc waedlyd? Ai am natur fel y *shambles*, lle y tywallt-ir gwaed y gwan gan y cryf anhrugarog y dywedodd y Creawdwr, "Ac wele da iawn ydoedd"? Da iawn, ynte, ydyw pechod, poen, dideimladrwydd, hagrwch a phob melldith arall. Da iawn, ynte, ydyw bydysawd *jerrybuilt*. Gwir ydyw ei fod yn bosibl mai Duw greodd y fath fyd gwaedlyd, ond gwir hefyd na all y fath Dduw fod yn Dduw cariad ac yn wrthrych addoliad i ddyn a chariad yn ei fynwes. "Eich Duw chwi ydyw fy niafol i," meddai John Wesley wrth Calfin culfarn. Felly y dywedaf finau wrth y dyn a ddysg fod natur yn adlewyrchiad digonol o gymeriad Duw cariadlawn. Sut gall unrhyw ddyn briodoli ymosodiad cancr, dywedwch, ar ddyn ieuanc diniwed, i ewyllys Duw? A ydyw Duw yn gyfrifol am enedigaeth i'r byd blant gwallgof ac anafus? Os ydyw, yna mae'r Hollalluog yn ddiffygiol yn hanfod cymeriad urddasol; mae yn llai teilwng o addoliad na chant o'm cyfeillion. Ofer, yn ngwyneb ffeithiau, ydyw chwilio am unoliaeth foesol yn natur; ni red llinyn cariad trwy natur. Os dywedwch gyda Ceiriog, eto, mai Beibl arall Duw ydyw natur, ac mai cariad a doethineb yn unig a welir ynddo, atebaf finau gyda Tennyson,

"*Nature red in tooth and claw,*
With ravine shrieks against your creeds."

Mae'r hen syniad fod Duw yn gyfrifol am boen a phechod yn dreth rhy drom ar ffydd dynion. Syniad ydyw ag sydd yn magu miloedd o anffyddwyr bob blwyddyn, a syniad ydyw ag sy'n parlysu holl feddwl a gwaith gweinidogion Duw. Sut y mae dianc o afael yr hunllef ofnadwy? Pa fodd y mae i ddyn gymodi cred mewn Duw cyfiawn a thyner â'r ffaith anwadadwy mai rheol bywyd ydyw, "*The survival of the fittest to survive*," hyny ydyw,

Trecha treisied,
Gwana' gwaedded.

Un ffordd o ddeongli'r anhawsder ydyw gwadu gwir fodolaeth yr anhawsder. "Pob drwg rhanol dda ydyw," ac felly, bendith mewn tywyllwisg ydyw poen anhaeddianol. Gallaf ddeall natur y fendith i'r fronfraith pan y llynca abwydyn byw, ond beth am yr abwydyn? Gallaf weled bendith i'r pechadur pan y gwel hagrwch ei bechod yn ei gorph adfeiliedig, eithr beth am ei blant a'i ŵyrion, yn nghyfansoddiadau diniwed y rhai yr ymddangosa effeithiau marwol pechod eu tadau. Dyna'r llawfeddyg yn tori ymaith un o aelodau y corph dynol; gwir ydyw fod y poen yn nglŷn a'r weithred yn arwain i ddaioni a bywyd, ond nid ydyw hyny yn gwneuthur y poen yn llai drwg ei natur. Mewn gair, os mai Duw ydyw awdwr poen a phechod, fel y dywed rhai, naturiol a chyfreithlawn ydyw gofyn, Paham na fyddai wedi creu dyn ac anifail ar ddoethach a chyflawnach cynllun? Ni wnaeth; Duw cariad yw; ac felly rhaid i'r drygau hyn fod yn groes i natur Duw. Nid ein Tad sydd yn gyfrifol am arlun gwaedlyd natur. Nid Duw ydyw awdwr clefydau creulawn fel y darfodedigaeth, cancr, a mil o wendidau'r cnawd. Eithr y fan yma gofyna rhywun,

Ai nid yw Duw yn Hollalluog?

Wel, y mae yn well genyf gredu mewn Tad Nefol yn gweithio dan derfynau na chredu ynddo fel Diafol Hollalluog. Gwell genyf achub cymeriad Duw na'i Hollalluogrwydd. Ni fedr Duw wneuthur dau a dau yn bump; mae hyn yn feddyliol anmhosibl, hyd yn nod i Hollalluogrwydd. Ac ni fedr Duw fod yn awdwr drygioni'r byd; mae hyny yn fythol groes i'w gymeriad o gariad a chyfiawnder.

Pwy ynte, sydd yn gyfrifol am y drwg? Mae athroniaeth ddiweddar ein hoes (gwel *James's* "*Will to Believe*") yn cytuno a'r hen goegchwedl yn llyfr Genesis i ddyweyd fod drwg yn groes i ewyllys Duw, rhywbeth tuallan i Dduw, rhyw sarff anuwiol, rhyw ddiafol ofnadwy. Felly y mae gonestrwydd meddwl a hawliau gwir grefydd yn gwaeddi am

Adgyfodiad y Diafol.

Yn mha wisg, ac ar ba ddelw nid oes wahaniaeth; pa un ai diafol personol neu beidio nid yw o ddim pwys. Y pwnc mawr ydyw deall a chyhoeddi y ffaith nad eiddo Duw ydyw drwg; nad yn ol ewyllys Duw y difetha'r cryf y gwan, ond yn rhinwedd rhyw allu aflan, rhyw fwystfil rheibus yn rhodio'r bydysawd ar hyd llwybrau o waed ac anghyfiawnder.

Ymladdwn yr yspryd hwn ynte, gan gofio ein bod felly yn brwydro, nid yn erbyn ffyrdd dirgel Duw, ond ar ochr Duw. A bellach na fydded i ni alw drwg yn dda a da yn ddrwg; eithr er rhoddi ei ogoniant priodol i Dduw, na fydded i ni ofni cymeryd rhan yn adgyfodiad y diafol.

Chesterfield. Gwilym Evans.

[Mae yn ddealledig, wrth gwrs, nad ydym ni yn gyfrifol am syniadau ein Gohebwyr; ond rhoddwn groesaw calonog i'r uchod, fel ymgais i daflu goleuni ar un o bynciau mwyaf dyrus duwinyddiaeth. Bydd yr un croesaw i farnau gwahanol, a charem yn fawr pe byddai ysgrif Mr. Evans yn rhoddi achlysur i drafodaeth iachus a ffrwythlawn o'r mater ar ein tudalenau.—Gol.]

ROBINSON CRUSOE.—I.

Yr wyf wedi meddwl llawer iawn yn ddiweddar am yr amgylchiad hwnw yn hanes Robinson Crusoe, pan yr aeth i lawr i'r traeth ac y gwelodd lun troed, neu rywbeth yn debyg i lun troed, yn y tywod. Yr oedd cyn hyny wedi gwneuthur ymchwiliad manwl a llwyr i ansawdd a chyflwr yr ynys lle'r oedd wedi cael ei longddryllio arni, ac wedi dyfod i'r casgliad pendant nad oedd arni yr un dyn yn preswylio ond ei hunan —ei hunan yn unig, "yn frenin ar bob rhan o'r fro," a theimlai yn gythryblus a chymysglyd ei feddwl uwchben—y llun troed! A allai'r peth fod yn bosibl? Amheuai'n gryf, dadleuai'n boeth—rhyngddo ag ef ei hunan. Tystiolaeth ei galon oedd—dyna lun troed; ond yr hyn a ddywedai ei ben oedd—y mae'n debyg; ond y mae'n anmhosibl iddo fod yn ddim ond llun. Nid oes yma yr un dyn ar yr ynys ond fy hunan, ac nid yw hwn mewn modd yn y byd yn cyfateb i lun fy nhroed i. Ac eto y mae'n berffaith debyg i lun troed dyn. Dichon ei fod yn fawr, yn fwy na'r cyffredin, ond wele lun troed yn berffaith gyda'i bedwar bys a bawd.

Ymddengys Robinson Crusoe yn eitha' Agnostic ar y pwnc—Agnostic yn wir, ond nid un haerllug fel rhai a gymerant arnynt yr enw y dyddiau hyn; ond yn hytrach un gwylaidd, llawn parchedigaeth, mwy tebyg i Huxley, yr hwn oedd y cyntaf yn y dyddiau diweddar i gymeryd yr enw arno. Tybiai nad oedd bosibl iddo gredu dim ond a welai, dim ond a ddaethai yn rhywfodd i gyffyrddiad a'i synwyrau allanol; eto er na allai gredu, y peth rhyfedd oedd, ei fod yn methu anghredu hefyd i'w foddlonrwydd ei hunan. Glynai'r weledigaeth, y llun troed, wrtho, ac nis gallai gael ymwared arno. Treuliodd lawer awr ar y traeth y dydd hwnw, a llawer awr y dydd ar ol hyny, pan oedd llanw y môr wedi golchi'r llun troed ymaith, yn ceisio eglurhad, yn ceisio'r achos o'r effaith hwn oedd eto yn feddyliol ger ei fron. Ceisiodd foddlonrwydd i'w feddwl yn y syniad fod y môr, neu feallai y gwynt, trwy gynulliad damweiniol (*fortuitous concourse*) wedi taflu'r tywod i'r ffurf hwnw. Y mae pethau rhyfedd iawn yn digwydd weithiau, meddai wrtho ei hun; a llawer tro y cafodd gydsyniad ei ben i'w ymresymiadau mai damwain a digwydd oedd y cyfan—y troed, a'r pedwar bys a'r bawd, ond methai gael ei galon i gwympo i fewn gydag un gradd o foddlonrwydd. Wn i ddim a oedd efe wedi bod yn y Coleg yn dysgu *Logic* ai nad oedd.

Pan aeth y gareg drwy y ffenestr y dydd o'r blaen, ni chlywais i ddim fod neb yn dodi'r bai ar y gareg. Y gareg wrth gwrs dorodd y ffenestr, ond ni chlywais i ddim fod neb yn foddlawn cymeryd hyny fel esponiad cyflawn ar y mater. Teimlai pawb fod yn rhaid myned y tu cefn i'r gareg er mwyn dyfod at y gwir achos o dori y ffenestr; ac yn y man deuir o hyd i rywun—rhyw berson—ddarfu osod y gareg ar waith—i symud. Pan olrheinir y mater yn ol felly, heibio i'r gareg, at ryw ddyn, gan gysylltu'r peth ag *ewyllys*, fe deimla pawb eu bod wedi dyfod at achos digonol. Ond, nid oedd neb yn foddlawn priodoli'r peth i ddigwydd a damwain.

Nid oedd dydd yn pasio nad oedd Robinson Crusoe yn talu ymweliad a'r traeth, ac yn ceisio ymwared o'r penbleth yr oedd ei feddwl ynddo. Y mae'n amheu—eitha' gwir. Y mae'n credu; ni fedr lai, ambell bryd, na gwneuthur hyny hefyd; ond ni fedr gael ei feddwl i ymlonyddu am ddwy awr o'r bron yn y naill gyfeiriad na'r llall. Carai gredu—dyna wir, feddyliwn. Dyn llongddrylliedig ar ynys unig, heb neb yn gwmni iddo ond ychydig ddefaid a geifr ac adar gwyllt ion. Carai gredu—pwy

all amheu?

Un dydd Gwener, heb fod yn hir iawn, y mae eto ar y traeth, ac wele'r tro hwn ei galon yn llamu yn ei fynwes, yn tampo. tampo fel pêl y plant. Beth sy'n bod? Beth sydd wedi ei gynhyrfu? Llun troed eto. Ie, llun troed! Ac wele eto un arall—troed aswy a throed dde! Dyma broblem! Y mae mewn dyryswch mwy nag erioed, ac y mae'r lluniau traed yn lluosogi; ond ni fyn efe gredu heb dystiolaeth amlycach, sicrach, mwy pendant. Yn ei dyb ef nid oes modd pontio'r gagendor rhwng y llun a'r traed, neu'r traed tybiedig sydd wedi achosi'r llun. Y mae rhai dynion na feiddiant deithio yr un cam yn mhellach nag y bydd eu synwyrau allanol yn eu harwain. Clywant son am Ffrainc, am yr Eidal, am yr Hispaen, &c., ond gan na fuont erioed yno ni feddant argyhoeddiad clir fod y fath leoedd yn bodoli.

Darllenasom am naturiaethwr unwaith yn canfod lluniau traed dieithr iawn ar wyneb haen o graig. Nid yw yn amheu mai hyny ydynt, er eu bod yn anhebyg i ddim a welodd erioed o'r blaen. Fel naturiaethwr teimla ddyddordeb mawr yn y mater. Yn mhen peth amser galluogir ef i ddilyn yr olion traed yn mhellach, a daw ar draws tamed o asgwrn. Cluda'r asgwrn adref, ac wedi dyfal a dwys fyfyrdod, llwydda i ddychmygu llun y creadur fu unwaith yn berchen ar yr asgwrn, a gesyd ef ar bapyr—creadur na welodd efe na neb byw arall ei debyg erioed. Ac nid dychymygu yn unig a wna, y mae'n llwyr argyhoeddedig fod ei ddychymyg yn dynodi ffaith yn natur. Yn mhen amser, ar ol hir barhau yn ei ymchwiliadau, a dilyn yr olion traed eto yn mhellach, deuir ar draws hwdwg o greadur anferth wedi ymgaregu—yn *fossil* yn y graig, ond yn gyflawniad agos perffaith o'r dychymyg neu'r broffwydoliaeth a wnaed ganddo ef ar bapyr. A oedd ganddo sail digonol i'w gasgliad ar y cyntaf? Mae'n amlwg mai yn rhinwedd ei gredu a'i ddyfalbara ar hyd llwybr rheswm, wrth gwrs, y sicrhaodd ei lwyddiant. Yn rhinwedd cyffelyb ffydd y mae darganfyddiadau mawrion y byd wedi eu sicrhau. Nid llawer o'r Agnostic a geid ynddynt. Llacau'r gewynion, rhwystro'r ymdrech yw tuedd amheuaeth bob amser. Rhaid wrth ffydd, rhaid wrth gred fod peth yn bosibl cyn gellir gwneud ymdrech.

Y mae dydd Gwener yn ddydd "Y Llythyren Goch" yn hanes Robinson Crusoe, ac i wneuthur stori hir yn stori fer, dyna fe un dydd Gwener yn cael golwg ar dorf o ddynion duon ar y traeth. Golygfa gyffrous yw, yn enwedig iddo ef. Nid ar unwaith y cymer yr ystyr i fewn. Bob yn ychydig gwawria arno nad oes yma ddim da'n bod. Cenfydd yn eu plith ddyn yn rhwym ac arwyddion yn awgrymu fod yma fwriad llofruddiaeth. Wedi gweled y perygl nid yw yn hir cyn dyfod i benderfyniad. Saetha i ganol y dorf, ac ar unwaith dyna ruthr at y dwfr, a phawb yn cefnu ac yn gwneud at y badau—ond y dyn oedd yn rhwym. Cawn adael hanes hwnw hyd y benod nesaf.

Yn y cyfamser y mae wedi cael esponiad ar yr olion traed, ac y mae'r holl ddirgelwch, wedi diflanu. Ond paham na chredai o'r blaen? A ydyw'n bosibl dychymygu olion eu traed—amryw o honynt—ac ar yn ail, un yn droed dde, a'r llall yn aswy, heb draed gwirioneddol i gyfateb iddynt? A allwn ni ddychmygu cynulliad damweiniol (*fortuitous concourse*) o dywod yn rhedeg dro ar ol tro i ffurf amryw olion traed—troed dde, troed aswy? Choelia'i fawr. Rhaid cael achos digonol i bob effaith.

Gwelodd Syr Isaac Newton afal yn syrthio oddiar y pren, a darganfyddodd ddeddf dysgyrchiad.

T. C. U.

HEN ADGOFION.

" Rhyw hen udgorn yw adgof,—a'i
gref waedd
Egyr feddau anghof ;
A'i udganiad dwg ynof
Hen bethau gynt byth i gof."

Mwynhad, lawer pryd, i henafgwr, yw edrych yn ol ar yr hen amser gynt ; gan hyny, goddefer i minau wneud hyny, a chofnodi rhai pethau a gymerasant le ar y pryd. Tua thri ugain mlynedd yn ol bu y dwymyn ymfudol ar ymweliad ag ardal y Cribyn, ac aeth llawer o ddynion parchus a defnyddiol y lle i ffwrdd i " wlad machlud haul;" ac yn eu plith Lewis Jones, a Jane Jones, Penlanganol (brawd a chwaer), ac Elizabeth, merch Daniel Williams, Capel St. Silin, ac eraill ; a bu cryn gyffro yn y gymydogaeth o'r herwydd ; ac oblegyd rhyw gysylltiadau perthynasol, daeth cantorion enwog Dyffryn Clettwr un prydnawn Sul, i'r hen addoldy diaddurn, i ddathlu yr amgylchiad, ac i "*ganu* yn iach" i'w hen gyfeillion ; a chanasant yn fendigedig, dan arweiniad yr hen gyfaill ffyddlawn a dirodres, Dafydd Jones, Gilfachddafydd, a Gwardofolog, wedi hyny. Yr oeddynt yn lleiswyr rhagorol, a defnyddient hefyd offer cerdd, sef y *flute*, y *clarionet*, y *fiddle*, a'r *bassoon*, fel rhwng pobpeth yr oedd " pob ergyd fel pib organ." Canasant ddwy anthem fechan a elwir " *Dismission*," ac " *Ode on Sciences*"; ac wrth edrych arnynt yn awr ac yn y man, nis gallaf lai na chofio am y prydnawn dedwydd hwnw, pan yr oeddynt *hwy* a'u seiniau perorol yn gwefreiddio mynwesau y gwrandawyr. Daethym wedi hyn i gydnabyddiaeth a rhai o honynt, a'u cymdeithas oedd felus ; ond Ow, pa le y maent heddyw ? Adlais hefyd a ofyn pa le ? Wel, mae yr ateb yn barod—y maent bron i gyd wedi myned drwy " y geledig gul adwy."

" Fel hyn o dô i dô
Yr awn i'r bedd i gyd ;
Disgynaf finau yn fy nhro
Dan leni'r bythol fyd."

Daeth y beirdd hefyd yn mlaen i ganu rhai penillion ar yr achlysur, ac fel hyn y canodd y Parch. Thomas Emlyn Thomas, yr hwn oedd Weinidog y Cribyn ar y pryd—

" Mae yn blanedig anian gref
O fewn i galon dyn ;
'Does dim i'w ganfod dan y nef
A foddia hon ei hun.

Er croesi dros y tonau mawr
Gwel bobpeth ar a'i gŵyr ;
Nid oes a'i lleinw enyd awr,
Er chwilio'r llawr yn llwyr.

Er rhoi ffarwel dros envd bach
Ar fyr cawn eto gwrdd ;
A dyna'r pryd cawn ganu'n iach,
Heb ofid ar ein bwrdd.

Er treulio'm nerth a chwilio'r byd,
A chyrhaedd amser maith,
Cyn byddo haner llawn fy mryd
Y bedd fydd pen y daith.

Gellir gweled penillion eraill a wnaeth ar ymadawiad Elizabeth Williams, yn YMOFYNYDD Rhagfyr, 1901. Wele eto benillion a gyfansoddodd yr hen brydydd ffraeth, John Jones, Penrhiwrhod, (*Ioan Trithlyg*), ar yr un achlysur ; ac hawdd yw gweled ei fod ef yn wrthymfudwr cadarn—

" Er gado tir ein gwlad yn mhell,
Er 'mofyn am ddedwyddwch gwell,
Er croesi'r môr a'i dònau dig,
Y Gofid dan y fron a drig.

Er rhoi ffarwel, er ysgwyd llaw,
Er myned i'r Gorllewin draw,
Daw angeu'n glau, daw'n ing ei gledd,
I gyrchu'r byw i garchar bedd.

Er hwylio dros yr eigion glas,
Er meddu cyfoeth India fras,
A chael y byd i gyd yn grwn,
Bydd poen a phenyd arnai'n bwn.

Na ddos i hel dedwyddwch gwyn
Dros dir a môr, dros bant a bryn ;
Rho'th gred yn Nghrist, a gwna dy ran,
Cei ganfod hwn yn mwth y gwan."

Cyfansoddwyd hefyd ar y pryd bump o bennillion gan Mr. T. Thomas, y Fadfa, yr amser hwnw, sef yr Hybarch T. Thomas, Y.H., Green Park, Llandyssul, yn awr ; ac nid oes eisieu i mi eu canmol, canys oferedd yw paentio'r lili ; a chofied y darllenydd mai nid " Cân di bennill mwyn i'th nain fe gân dy nain i tithau," yw fy arwyddair wrth ddweyd fel hyn. Maddeued fy hen gyfaill i mi am ddyfynu y tri phenill canlynol—

" Y mae'n anhawdd iawn ymadael
A chyfeillion gwych eu gwedd ;
Rhoddi'r olaf ffarwel iddynt
Fel pe bawn i'n myn'd i'r bedd ;
Colli'u hyfryd, hoff gyfeillach
A bair imi, lawer tro,
Edrych dros y tonau geirwon
Tua'm genedigol fro.

Cofio am fy hen gyfeillion
Oeddynt im' fel brodyr mwyn ;
Cofio'u hyfryd ymadroddion
Bair i'm calon lesg roi cwyn ;
Cofio'r holl gynghorion gefais
Er fy addysg yn y byd,
Bair i'm llygaid, wrth ystyried,
Wylo dagrau lawer pryd.

Cariad Duw sy'n llywio'r cyfan
Ddaw i gwrdd a'i anwyl blant ;
O dan aden glyd ei gariad
Af dros eirwon donau i bant ;
Caf ei gadarn fraich o tanaf
Mewn cyfyngaf oriau trist ;
Caf i'm meddwl cystuddiedig
Gysur mawr yn ngeiriau Crist."

Mae gan Daniel Ddu hefyd gyfansoddiad teimladol iawn ar ymadawiad Elizabeth Williams, yr hwn a welir yn yr ail argraffiad o " *Winllan y Bardd*" ; y mae yn cynwys pum' pennill, a chaf ddyfynu y tri canlynol—

" Nid ydyw croesi moroedd
Yn newid calon dyn ;
Mae cof am fangre'i febyd
A gwreiddiau'i serch yn nglŷn ;
Nid all na meithder ymdaith,
Na gwres, na rhew, na gwynt,
Droi'n angho'r aelwyd gynhes
Lle ces fagwraeth gynt.

Mae'r cof yn fil cyflymach
Na gwenol heini'r gwŷdd ;
Os rhwym fydd traed a dwylo,
Mae'r meddwl eto'n rhydd ;
Ar wàr y lasdon dyner,
Heb wel'd ond dwr a nen,
Mae cof am fwynder Cymru
Yn mynych boeni'r pen.

Hiraethaf am yr afon
Y rhodiais ar ei min ;
Hiraethaf am y ffynon
Rodd imi ddwr fel gwin ;
Hiraethaf am y llwybrau
O amgylch tŷ fy nhad,
A llawer man a rodiais
O fewn fy anwyl wlad."

Y mae yn agos i dri ugain mlynedd er pan yr ysgrifenais y pennillion uchod am y waith gyntaf, a hyny o gopi, ac ar gais, y Bardd Du ei hun, er mwyn i mi eu darllen i rai o'i gyfeillion cyfagos. Wele fi, bellach, wedi traethu fy llen ; a chystal imi derfynu, rhag blino y darllenydd a meithder.

Dewi Hefin.

A'r olaf o'r deuddeg a enwyd ar antur ;
I'r flwyddyn ddilynol efe oedd y *Rhagfur.—Ceiriog*

ADOLYGIAD.*

Dyma Faes Llafur ein Hysgolion Sul am 1903—04. Mae'r Gwersi yn ddwy ar bymtheg mewn rhif, 13 o law'r Golygydd a'r gweddill gan gynorthwywyr. Ystyriwn fod y Golygydd wedi gwneuthur ei waith yn dda, a choeliwn y ceir y Pum Gwers rhagarweiniol yn werthfawr o'u meistroli yn iawn. Heb feistroli y rhai hyny fodd bynag, ni cheir y gweddill i fyny a'r disgwyliadau. Trinir pynciau y Pum Gwers gyntaf gyda llawer iawn o ddeheurwydd, dan y teitlau hyn: Y Teitl, Amcan, Awduriaeth, Dyddiad ac Awdurdod y Llyfr, ac yn bumed Yr Iuddewon, Gartref ac Oddicartref. Ymdrinir a'r gwahanol bynciau mewn ffordd deg a goleu ac ar y cyfan yn yr yspryd iawn; ac os na symudir pob anhawsder nid yw'r bai ar y Golygydd yn gymaint ag ar y pwnc ei hunan. Y mae anhawsderau llyfr yr Actau yn gyfryw nad oes neb hyd heddyw wedi llwyddo i'w symud i ffwrdd i foddlonrwydd cyffredinol.

Pwnc dyddorol yw pwnc yr Awduriaeth. Ymddengys y Golygydd o'r dyb nad un awdwr sydd wedi bod wrtho. Dalied y darllenydd sylw manwl ar hyn yma. Tebyg fod y llyfr wedi tyfu o dan law y copiwyr. Gall fod y rhanau hyny lle mae'r awdwr yn ysgrifenu yn ei enw ei hun—adran y "Nyni"—wedi dyfod o law cydymaith i Paul; Luc oedd hwnw feallai, a thybia'r Golygydd fod y gweddill yn perthyn i'r ail ganrif. Y mae yma ddigon o le i wahaniaeth barn; ond ai nid yw yn rhesymol i gasglu fod y crynodeb o hanes teithiau Paul, yn y sylwedd o hono, yn perthyn i dymor boreuach na'r ail ganrif?

Dyddorol yw'r "amryw olygiadau" yn nghylch "Amcan y Traethawd." Nid yw yn Hanes Gweithredoedd yr Apostolion; nac yn unrhyw ystyr briodol yn hanes o gwbl. Cais at gymodi yw'r peth amlycaf geir ynddo—dwyn y gwahanol bleidiau at eu gilydd—plaid Petr a phlaid Paul, &c. Y mae'n ochelgar iawn gyda golwg ar yr hyn a ddywed am yr awdurdodau Rhufeinig. Dichon ei fod yn galetach yn ei driniaeth o'r Iuddewon na neb arall. Y mae amcan crefyddol yn amlwg i'r llyfr, ac fel y dywed y Golygydd y mae yn "ardderchog" ar hyd y llinellau hyny. Y mae'r ddysgeidiaeth am Dduw ac am ddyledswydd dyn yn aruchel.

Cyfeirir at a ganlyn fel enghreifftiau o brydferthwch syniadaeth y llyfr: 10: 34—43; 14: 22; 15: 6—11; 20: 24; 21: 13—14; 24: 16.

Dymunwn ei gymhell yn wresog i sylw ein holl Ysgolion Sul. Darllenent ef yn fanwl ac yn ofalus. Nid oes rhaid iddynt gytuno a'r oll sydd ynddo, nac i ddal yn ormodol ar unrhyw frychau a welant neu a dybiant eu bod yn eu gweled ynddo. Gall y llyfr brofi'n fendith ac yn ras iddynt heb hyny.

T.C.U.

*GWERSI AR YR ACTAU, dan olygiaeth y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen. Rhan I, Actau i—xi. Pris Chwe' cheiniog. Llandyssul, Gwasg Gomer.

"Yn yr haf y lili wena,
Yna'r gauaf oer a'i gwya;
Ond mae Lili'r Bryniau'n ddedwydd
Haf a gauaf fel eu gilydd."—*Ceiriog.*

BREUDDWYD EFFRO.

Safwn mewn synfyfyrdod o flaen castell bychan, ond hynod brydferth a dysglaer, gan ddyheu am agoshau. Yn araf a dirgelaidd agorwyd y clwydi enfawr, a gyrwyd fi i fewn mewn amrantiad gan rhyw allu anweledig. Cerddais, neu yn hytrach symudais, ar hyd y ffordd eang arweiniai i fyny i'r baradwysaidd wlad. Yr oedd y ffordd yn llawn tlysni ; y blodau amryliw—blodau na ddarfu i un marwol syllu arnynt erioed, yn gylymau ar ei hochr. Yr oedd yr aroglau hyfryd bron yn feddwol, a'r awyrgylch mor swynol ac ysgafn nes gwneud teithio yn orymdaith ddawnsyddol. Ond unig oedd y ffordd, ac nid oedd un cydymaith i'w weled. Teimladau angerddol, a syniadau dychrynadwy ddolurient fy enaid, nes gwneud teithio ar hyd ffordd oedd mor brydferth yn flinder a phoen. Buan dechreuodd fy yspryd grefu am ymwared, ac fel pe yn unol a'm dymuniad, wele agoriad yn y berth flodau a phrysurais drwyddo.

Yr oedd yr holl olygfa yn eang. Y ffordd lydan flodeuog wedi diflanu, a dim ond llwybr cul yn ymdroellu o'r golwg i'r pellder. Meddianwyd fi ag yspryd anwrthwynebol i symud yn y blaen, a phrysurais yn ddioedi ar hyd y llwybr cul, weithiau yn ei golli ac yn crwydro dros y creigleoedd, ac eto yn ei ganfod o'r newydd yn y pellder. Tywyllodd yr awyrgylch, ac er fy syndod goleuwyd y llwybr gan ryw oleuni dirgelaidd berai iddo fflachio fel sarff danllyd o'm blaen. Nis gallwn ganfod ond trem ar y diffaethwch enfawr ymgollai yn y niwl o bob tu. Ac nis gwelais yr un enaid byw nac un creadur ar yr holl daith. O mor unig oedd y llwybr ! O mor anghysbell yr amgylchoedd !

Yr oedd teimladau dwys yn meddianu fy nghalon, a'r yspryd yn cael ei orfodi i fyn'd, i symud yn y blaen, i deithio gyda chyflymdra y fellten. Prysuro, prysuro, prysuro, a'm henaid ar lethu, a'm calon yn drom, ac eto fy holl fywyd yn fflam angerddol gan y dyhead anorchfygol i symud ar hyd y llwybr cul sarphaidd. Ond nid oedd dim gorphwysfa, dim hamdden feddyliol, dim enyd i wyro ychydig o'r llwybr. Llefai yr yspryd yr un gân yn barhaus yn fy mywyd. " Prysura, prysura, mae anfarwoldeb ac anfeidroldeb gerllaw. Ymnertha, teithia, eheda ymaith." Yr oedd y teimlad yn angerddol, bron yn ormod i'r yspryd ddioddef.

Wele y llwybr yn diweddu mewn agendor, a safais ar ymyl craig syth, troed yr hon ymgollai yn y niwl a'r tarth a'r pellder. Am enyd nid oedd dim i weled ond y tywyllwch dudew o fy mlaen, ond cyn hir dychmygwn weled ffurfiau yn ymgodi o'r gwagle obry, yn nofio megis ar y tywyllwch trwchus, ac yn erbyn eu gilydd trwy y niwl. Yn groes i'm disgwyliad yr oedd pob ofn ac arswyd wedi llwyr ymadael a'm hyspryd, a chefais fy hun mewn llawn feddiant o'm holl alluoedd, a theimlad o hyfdra a heddwch yn gorlenwi fy enaid.

Yn araf, yn ddirgelaidd, ond fel pe bawn yn ei disgwyl, cododd pont gul, hirfain allan o'r tywyllwch pruddaidd, a phan ddaeth yn fin-fin a'r graig, aethum yn groes mewn llawn hyder.

RONYA.

" 'Does eisiau 'r un gareg i ddangos y fan
Y gorphwys fy nghariad yn mynwent y llan ;
O'r dydd rhoed hi yno i huno mewn hedd,
Mae blodau tragwyddol yn byw ar ei bedd."— *Ceiriog.*

GWEINIDOG Y MYNYDD.

GAN TUDFATHAR.

XIV.

"Chwythu ei dân dan chwibanu
Ei fyw dôn wna y gof du."
—*Hiraethog.*

Aeth rhai misoedd heibio wedi digwyddiadau'r bennod ddiweddaf; yr oedd y gauaf oer wedi disgyn ar y wlad, a chaenen o eira gwyn yn ei gorchuddio o bryd i bryd. Yr oedd Nwyfa gartref gyda'i rhieni, yn rhanu ei hamser rhwng ei llyfrau, dyledswyddau teuluaidd, ac ambell i hen wraig dlawd yma a thraw yn yr ardal,—'doedd ond ychydig o bobl anghenus yn ardal Llwydfaen. Yr oedd y Parchedig Humphrey Roberts yn ddiweddar wedi bod yn pregethu gydag arddeliad neillduol, yn wir, yr oedd wedi creu rhyw gymaint o gyffro diwygiadol yn y fro. Pobl aneallus oeddent lawer o drigolion y cylch, ac yr oedd ystorm o hyawdledd teimladol yn cael effaith lawer mwy arnynt na goleuni clir rheswm a gwirionedd. Ond dyna hanes taith y gwirionedd drwy y byd, a thyna felly oedd ei hanes yn Llwydfaen. Ar y Sul tyrai pobl y cylchoedd i gapel Penybont am ddeg y boreu, ac am chwech yr hwyr. Derbynid rhai degau o aelodau newyddion bron bob mis, ac yr oedd son eisioes am adnewyddu ac eangu'r capel.

Yr oedd capel y Mynydd, yn awr er's rhai misoedd yn ddi-weinidog, yn brysur ymwacäu, yn enwedig gan ei bod yn anhawdd cael pregethwr yno yn rheolaidd. O un i un treiglai'r aelodau i lawr i'r cwm, gan wneud eu ffordd i gapel Penybont. Yr oedd y son am Geraint Jones bron a diflanu yn y gymydogaeth, ac yr oedd ei ymadawiad a'r eglwys o dan y fath amgylchiadau cywilyddus wedi rhoddi ergyd marwol i'r enwad yn y gymydogaeth—enwad nad oedd yn cael y gair goreu cyn y digwyddiad hwnw. Fel y crybwyllasom, y son oedd fod ganddo wraig a phlentyn yn Llundain nad oedd wedi eu harddel, ac yr oedd y ffaith ei fod ychydig ddiwrnodau ar ol ei ymadawiad wedi danfon am ei lyfrau a'i ychydig feddianau o'r Brifddinas yn gwneud y gred am hyn yn sicrwydd. Pa sut a pha fodd y treuliodd Geraint y misoedd hyn ceir gweled yn nes yn mlaen. Beth oedd teimladau calon Nwyfa yn ei hunigedd distaw yn ei chartref yn Llwydfaen oddiar y dydd yr ymadawodd a Geraint ddel yn amlwg hefyd cyn hir. Yr oedd un gwr yn hapus yn nystryw eglwys y Mynydd, ac yn ymwahaniad a gwarth Geraint a Nwyfa, a Sidney Howells oedd hwnw. Yr oedd Ethel y Siop,—geneth wan a chariadus, yn hongian beunydd rhwng gofid a dedwyddwch, gofid am ei rhan yn nystryw hapusrwydd Nwyfa, a dedwyddwch am ei meddiant tybiedig o galon Sidney Howells. Rhyfedd y dinystr a wna tân serch ar gymeriad gwan fel eiddo Ethel. Yr oedd Deio'r Go' hyd yn nod wedi teimlo rhyw ychydig o'r ysgydwad diwygiadol, ac yr oedd yn amlach nag erioed yn nhafarn Penybont yn ymofyn am foddion i ddofi cnoadau ei gydwybod euog. Yn ystod y dydd byddai yn dadleu 'Ysgrythyr' a hwn a'r llall yn yr efail tra wrth ei ychydig waith, ac yn yr hwyr byddai yn siarad 'crefydd' uwch ei beint yn y tafarn. Nid oedd Mr. Humphrey Roberts yn talu llawer o ymweliadau a phobl y pentref, ac yn anaml iawn yr ai i fewn at Deio, gan ei fod, hyd yn ddiweddar, yn gwel'd fod ei bresenoldeb yn rhyw gymaint o *damper* ar y gof a'i gyfeillion yn yr efail. Unwaith neu ddwy yn ddiweddar, yr oedd Deio wedi rhoddi ei bresenoldeb yn odfaon y Parchedig

Humphrey Roberts, yr hwn oedd wedi sylwi ar y gof yn gwrando yn astud ar gongl o'r oriel, gan symud yn anesmwyth yn awr ac yn y man, fel pe bai'r weinidogaeth yn dwfn effeithio arno. Wedi sylwi ar y gof yn gwingo dan ei fflangell, penderfynodd Mr. Roberts alw arno yn ei efail un boreu, i gael ceisio ei berswadio, os oedd yn bosibl, i ymaelodi yn eglwys Penybont. Fel rheol, byddai'r gwr parchedig yn cyfyngu ei berswadaeth yn gyfangwbl i'w bwlpud, ac yn anaml y byddai yn siarad a neb am ddim o'r fath tu allan i'w gapel. Ond teimlai fod Deio'n hen bechadur llesg, ag eisieu cymhorth arbenig arno i'w ddwyn yn ol i gorlan y cadwedigion. Felly penderfynodd y 'Pregethwr Methodist' alw heibio Deio yn yr efail. Yr oedd yn foreu oer a rhewog, a chaenen o eira wedi disgyn ar y ddaear yn ystod y nôs, gan orchuddio stryd y pentref a phenau'r tai a mantell wen a phur. Yr oedd y tân yn yr efail, gyda chynorthwy'r hen fegin fawr, yn cyneu yn ddysglaer a chyffyrddus. Ar y pentan y boreu hwn eisteddai hen wr penllwyd, ac odid bedwar ugain mlwydd yn crymu ei war, fu gref. Yr oedd cot lwyd, wlanog, gyffyrddus am ei gefn; gwisgai lodrau a *leggings*, *woollen-cord*, ac esgidiau mawr cryfion, ag hoelion 'Twm Paen' danynt, ac wedi eu duo ag 'ired' (*grease*). Yr oedd Thomas Evans, Fronwerdd, canys dyna pwy oedd yr hen wr, wedi dyfod i'r efail yn bur foreu i bedoli ei 'boni,' ac wedi i Deio orphen ei oruchwyliaeth ar yr anifail, yr oedd y gof a'r ffermwr wedi eistedd i lawr am ennyd i ddadleu pynciau'r dydd, siarad duwinyddiaeth y pentref, a myned dros 'ystraeon y dyddiau gynt.' Cyn dyfodiad y pregethwr i'r efail elai'r ymgom yn mlaen yn rhywbeth tebyg i hyn—

''Rwy'n clywed dy fod di'n troi'n Fethodsyn, Deio; 'ro'wn i'n meddwl mai Undodwr oet ti bob amser.'

'Wel,' atebai Deio, gan agor ei flwch, a chymeryd cnoad o rol o dybaco main orweddai yn dorchau ar ei waelod, 'fel 'rych chi'n gwbod Thomas Evans, dw i ddim wedi bod yn rhw benboth gyda busnes y crefydda ma ariod. Pan oedd Geraint Jones gyda chi'r haf dwetha, rown i'n dod i'r Mynydd co ato chi weithe. Rown i'n leico'r bachgen yn rhyfedd.'

'A, ie,' meddai'r hen wr gan geisio osgoi'r cyfeiriad at helynt y gweinidog, 'ond ma nhw'n dweyd 'nawr dy fod di'n gredwr cryfmewn Methodistiaeth, a'r Iawn, a phethau o'r fath, a dy fod di wedi cael troedigaeth hollol.'

'Wel, mae'n hen bryd i fi gael troedigaeth. Hanes digon 'du'r ddafad' sy' wedi bod i fi ar hyd fy oes, ag mae'n bryd i fi ddachre diwygio dipyn os wy'n mofyn cael stol dair-troed rhwle tu fywn i ddrws y nefoedd.'

'A, ie, Deio, cwestiwn y marw ma sy'n dy flino di. Chwilio am grefydd i dy wneud yn saff yr ochr draw wyt ti, 'rwy'n gweld, fel llawer o'r enwadau uniongred yma.'

'Wel, 'rych chi'n gweld, ma tragwyddoldeb dipyn yn hir, yn enwedig, os digwydd i ddyn fod yn anghyffyrddus; rhaid treio gofalu 'mlaen llaw i gael stol weddol esmwyth, neu mi fydd fel y 'steddfod yn yr ysgoldy na dydd Calan, fydd hi ddim ond gwasgu un ar ben y llall yn y gwres nes boi'n nôs.'

'Y mae'n rhy ddiweddar i ti a minau erbyn hyn Deio i geisio *byw* yn addas; ond pe bai ti 'n grwt byddwn yn rhoi'r cynghor i ti,—'Bydd di fyw'n iawn, ac mi fedri adael i farw ofalu drosto ei hun; meindia di dy fywyd, ac mi feindia tragwyddoldeb am dano'i hunan.'

'Ie wir, da iawn, Thomas Evans; 'rwy'n credu mod i wedi clwed y cyngor na o'r blan rwle. Rych chi'r Sosinied ma'n ffond iawn o'r byw'n iawn yma, ag wrth fyw rych chi'n golygu byw'n onest, ag yn sobor, ag yn garedig; ond odych chi'n credu fod hyny'n ddigon i fynd a chi i'r nefodd? Rhyw dreio mynd i'r nefodd ar drad ych hunen fyddwch chi'r Sosinied ma. Am dana i, rwy i dipyn yn rhy gloff i dreio i cherdded

hi'n hunan. Ond ar haner y cwbwl beth sy wedi dod o Geraint Jones? Bachgen nêt oedd e.'

'Oedd, yr oedd Jones yn fachgen purion; trueni na fuase fe wedi ymddwyn dipyn yn fwy stret, ond, dyna, gwell gadael iddo fan 'na; mae pethe wedi dibenu erbyn hyn, a'r peth goreu yw anghofio'r cyfan. 'Rodd Jones yn fachgen neis i bob ymddangosiad allanol; ond 'nid wrth i big mae nabod cyffylog.''

'Rych chi, bobl blaenllaw'r Mynydd yna yn sicr o fod wedi colli cyffylog go lew pan gollsoch chi Geraint Jones; a choeliwch chi fi, rych chi wedi gneud cam ofnadwy a'r dyn, ag mae'r cyfan yn siwr o ddod i'r goleu cyn bo hir. Ac er mwyn pwysleisio'r ffaith saethodd Deio sudd y tybaco main i'r tân.'

'Gobeithio na ddaw dim rhagor i'r goleu nag sydd wedi dyfod eisioes; y mae'r hyn sydd wedi digwydd wedi byrhau llawer o'r chydig ddyddiau sydd yn ol i fi ar y ddaear yma. Fy'n uchelgais fwya i oedd cael gweled eglwys Undodaidd ryddfrydig a chref yn codi i fyny yn nghanol Cymru, ysmotyn gwyn o wirionedd a rhyddid; er mai 'ysmotyn du' ei gelwir gan rai. Pan welais y bachgen ieuanc, Geraint Jones, yn pregethu gyntaf yn y pwlpud, a'i wyneb call, synwyrol ac agored; ei sel ddiamheuol dros y gwirionedd, a'r arwydd ddiamheuol yn ei wedd ei fod yn ddyn a *neges* ganddo; mi ddwedes wrth fy hun, 'Dyna'r dyn i ni; dyna'r dyn sy'n mynd i hau goleuni yn y tywyllwch sydd yn gordoi'r wlad yma, waeth dim ond tywyllwch y gellir galw'r culni iawnffyddol yma.' A chymerodd Thomas Evans bum munyd i beswch a chlirio ei frest ar ol yr araeth hir hon.

'Ac mi fuoch yn rhy fyrbwyll o lawer yn anfon Jones bant, Thomas Evans, mi dorsoch y pren lawr cyn cal gweld shwt ffrwyth ddelse arno.'

'Na, na, mi welsom y ffrwyth yn rhy fuan, Deio, a ffrwyth drwg oedd e. Afal dien a bochgoch braf y tu faes, ond ei galon yn bwdr oddimewn. Fel y dywed yr hen ddiareb—

'Tri pheth sy'n ano'u nhabod,—
Dyn, a derwen, a diwrnod—
Y dydd yn troi, a'r dderwen yn gou,
A'r dyn yn ddou wynebog.'

'Eitha gwir, eitha gwir,' atebai Deio, 'ond dyma ddyn yn dod nawr sy'n gwybod mwy am y pethe ma na' ni'n dou; dyma y ''gethwr Methods, os gwedon nhw yn y *North*, yn dod. Be sy wedi i godi e i mas ar yr eira ma, fel deryn du, wn i? 'Nawr Thomas Evans, partowch y'ch pesychiad mwyaf sobr-sanctedd i gyfarch y Parchedig.' Ac yn y man dyma Mr. Humphrey Roberts yn taro blaen ei droed yn erbyn wal yr efail, i gael yr eira i ffwrdd o dan ei esgidiau, a chan garthu yn lled bregethwrol daeth i mewn i'r efail gan gyfarch Deio—

'Bore da, Deio, ydych chwi'n ddiwyd iawn yma?'

'Wel, na, Mr. Roberts, dwy ddim yn fisi iawn y funyd hon; rwy wedi cael digon o waith wrth boni Tomos Evans yma i gal yn ngwres, ag ma hyny'n rhwbeth ar y tywy ôr ma.'

Yr oedd Thomas Evans bob amser yn anesmwyth yn nghwmni'r pregethwr Methodist: felly cododd o'i sedd ger y tân, ac wedi siarad gair neu ddau a Deio a Mr. Roberts, esgynodd ar gefn ei boni, ac ymaith ag ef, yn araf ac yn gefn-grwn drwy heol y pentref i gyfeiriad ei gartref, y Fronwerdd.

'Wel, mae'n dda gen i'ch gwel'd chwi ar lofft y capel acw y Sul, Deio,' ail-ddechreuai Mr. Roberts. 'Peth da yw cael ail-afael mewn crefydd yn eich hen ddyddiau.'

'Wn i beth am ail-afel, yn wir. Wn i a ges i afel gynta arni ariod ne beido.'

'Ond chwi fuoch yn aelod ys llawer dydd, Deio?'

'Do, mi fues yn aelod gyda'r Undodied, 'slawer dy; ond mae'r tipyn *polish* ges i pyrny wedi rhwdi er's cetyn erbyn hyn. Rwy wedi bod ormod mas y nos yma i gadw *tools* crefydd yn loew, ag rwy wedi bod yn addoli gormod o *John Barleycorn* i shario'r addoliad a neb arall.'

'Mae'n amlwg, Deio, eich bod wedi cymeryd y cam cyntaf i gyfeiriad perffeithrwydd, yr ydych wedi dod yn ymwybodol o'ch pechodau.'

'Wel, odw, Mr. Roberts, 'rwy'n gwbod y' meie'n nêt; 'rwy wedi cymryd y *step* yna er's blynydde; rwy'n gwbod yn nêt i bod hi yn bechadurus i droilo'r nôs yn *poachian*, a'r dydd i yfed cwrw; o odw, rwy'n gwbod hyny gystal a neb, a gwell falle; ond y *job* yw anghofio'r fusnes. Ma'r hen gôs ma wedi gneud i fi anghofio'r *poachian*, waeth ddalwn i ddim samonyn marw nawr tawn i'n hercan y ngore; ond mae tafarn Penybont yn y gored ac yn gyfleus o hyd.'

'Ond y mae capel Penybont yn agored hefyd, Deio.'

'Odi, ond dim ond ar ddy' Sul, a rhyw ddwy awr yn yr wythnos, Mr. Roberts. Ond am y tafarn mae hwnw yn y gored o fore dy' Llun hyd nos Sadwrn; ag fel rheol, mi fydda i'n cymryd digon nos Sadwrn i nghario i mlaen hyd fore dy' Llun.'

'Mae'n amlwg, Deio, nad wyf fi ddim yn rhoi digon i chwi i'ch cario o un dydd Sul i'r llall.'

'Odych, 'rych chi'n rhoi digon, ond fy mod i'n analluog i gymryd e' mywn. 'Rwy'n hen gyfarwydd a chymryd mywn yr hyn ma'r tafarnwr yn i roi i fi. 'Rwy'n ffeilu cymryd i mywn ych duwinyddiaeth chi,' Mr. Roberts.'

'Nid duwinyddiaeth sydd yn eisieu arnoch Deio. Mater y pen yw hwnw. Nid eisieu duwinyddiaeth yn y pen, ond gras yn y galon sydd arnoch chwi, Deio.'

'Maddeuwch i fi weyd yn ych erbyn chi, Mr. Roberts, 'rwyn nabod yn hunan yn go lew erbyn hyn, ag rwy'n ofni'ch bod chi'n *wrong*—yn *wrong* am yn nolur *i*, beth bynag. Mae'n hen galon i'n eitha reit. Yr hen ben yma sy wedi bod mas o le. Ddymunes i ddrwg i neb ariod, ag rwy'n sicir nes i gam a'r un dyn ariod, trw wbod i fi; ond 'rwy wedi bod yn filen o ffol. Yn lle stico at y' ngwaith yn yr efel, mas y nôs y leiciwn i fod, gyda'r dryll, ne'r rhwyd, ne ffyret, ne ar lan yr afon gyda'r tryfer a'r ganwll *bitch*: ag mor chydig yr arian, ac mor fowr y gofid y does i iddyn' nhw o'r herwydd. A dyma fi nawr yn hen ac yn unig ag yn gloff yn gorffod slafo lle y dylwn gal gorffwys; ag yn gorffod talu am bob crwstyn ag am bob peint a whys y' nghalcen. Ffwl wy' wedi bod, Mr. Roberts, y pen ma sy wedi bod yn *wrong*, y ma'r hen galon yn eitha reit,' a saethodd fwa o sudd dybaco mewn i ganol y tân eto.

''Rwyn ofni eich bod chwi yn gryn dipyn o Sosin o hyd, Deio, gan eich bod yn credu mai gwendid yn eich pen, ac nid y Diafol yn eich calon sydd wedi gwneud y drwg. Rych chi'n sicir o fod yn gwneud mistêc mawr Deio: cymerwch Grist i'ch calon i ymlid y Diafol i ffwrdd.'

'Ie, ie, Mr. Roberts, os mai Diafol sy'n gwneud y drwg nid arna i ma'r bai i gyd a ie? Ag os ma Crist sy'n mynd i'm hadferu i, nid i fi bydd y *credit* a ie? Na, na, Mr. Roberts, mi gymra i'r bai i gyd am y 'nghwymp, ac mi gymra i'r *credit* i gyd am y nghodiad, os galla i godi dipyn cyn suddo i'r bedd.'

'Rych chwi'n gymaint o Sosin ag erioed, Deio, rwyn gwel'd. Oni wyddoch chi nad oes dim a'ch glanha chwi o'ch holl bechodau ond gwaed Calfaria, nid oes dim a'ch adfer chwi, ond Iawn y Groes?'

'Gwn fod y Methodistiaid, a'r Eglwyswyr a'r holl enwadau ereill yn gweyd hyny, ond 'rwyn ffeilu dyall y peth.'

'Does neb yn deall y peth, Deio. Y mae Achubiaeth y Byd gan y Duw-ddyn y tuhwnt i allu'r dyn mwyaf goleuedig yn y byd heddyw: derbyniwch y ffaith, Deio, does dim eisieu ei deall. Yr ydych yn yfed dwfr naturiol, heb ddeall sut y mae'n effeithio ar y corph, yfwch Ddwfr y Bywyd yr un peth.'

'Ie, ie, ond ma'n rhaid i bawb wrth ddwr naturiol. 'Does yr un creadur ar wyneb y ddaear all fyw hebddo. Ond mae miloedd yn byw

a marw bob blwyddyn heb wybod dim am y dwr rych chin son am dano. Mae'n amlwg fod y dwr yma'n gwneud lles i rai, ond rwyn gweld erill yn byw lawn cystal hebddo. I bwy bwrpas rwyn mynd i gymeryd potelaid o foddion os y galla i fyw lawn cystal hebddi, neu iachau'n hunan drwy gymeryd mwy o ofal wrth fwyta, ac yfed a chysgu, a dilyn *rules* iechyd.'

(I'W BARHAU.)

PRIODASAU.

TACHWEDD 18, yn Swyddfa'r Cofrestrydd, yn Aberayron, Mr. Evan Davies, Gwrthwynt-isa, Trefilan, â Miss Sarah Davies, Fronddu, Dihewyd.

TACHWEDD 20, yn Swyddfa'r Cofrestrydd, yn Aberayron, Mr. Thomas Thomas, Tirdomen, Llandilo, â Miss Elizabeth Davies, Ffynonoer, Llanfihangel Ystrad.

RHAGFYR 11, yn Nghapel y Cribyn, gan y gweinidog, unwyd mewn priodas, Mr. Evan Jones, Wern View, â Miss Margaret Jones, Tanlan, y ddau o Cribyn. Hir oes, iechyd, a llwyddiant fo'n rhan i'r par ieuanc.

RHAGFYR 18, yn Pantdefaid, gan y Parch. Arthur Thomas, unwyd mewn glân briodas, Mr. David Davies, Bargoed, â Miss Elizabeth Jones, Ceginan, y ddau o blwyf Llandyssul.

MARWGOFION.

TACHWEDD 9, yn ddwy flwydd oed, Meurig Jenkins, mab Mr. a Mrs. Rhys Jenkins, Sunny Cottage, Dewi Road, Tregaron.

"Meurig bach, fe ga'dd ei symud
Fry i'r nef at Iesu Grist,
Cyn i un demtasiwn bywyd
I lychwino dim o'i wisg."

TACHWEDD 27, yn 15 wythnos oed, Samuel, mab John ac Elizabeth Jones, Coesyfran, Bwlchyfadfa. Mae cymylau duon yn aros yn aml uwchben y cartrefi yma ond bydded i'r rhieni gofio geiriau y bardd—

"Cymylau dua'r nen
Sy'n llawn trugaredd gwlawio wnant
Fendithion ar eu pen."

Y Llun canlynol am 1 o'r gloch, claddwyd yn y Bwlch, y Parch. E. O. Jenkins yn gwasanaethu.

TACHWEDD 27, yn 52 mlwydd oed, Mr. T. R. Jones, Glanyrynys, ger Llandyssul. Dioddefodd Mr. Jones fisoedd lawer o gystudd caled, a gweinyddwyd arno yn dyner gan ei briod yr hon sydd wedi ei gadael

yn unig mewn galar mawr ar ei ol. Dyn tawel, cydwybodol a gwyneb-agored oedd yr ymadawedig ac iddo air da gan ei gydnabod. Dydd Mercher canlynol claddwyd ef yn mynwent Pantdefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas. Y nefoedd fyddo'n dirion wrth ei weddw a'i dad oedranus.

TACHWEDD 28, bu farw yn Bournemouth, lle'r oedd wedi myned i geisio adferiad iechyd, Joseph Jenkins, Victoria Hotel, Ferndale, gynt *Cashier* y Gadlys, Aberdar. Hanai Mr. Jenkins o gyff Richard Jenkins, ac o du gwraig hwnw hanai o deulu Sion Llewellyn, yr hen Fardd o Goedycymer. Ceid Mr. Jenkins yn mhob man y byddai yn noddwr selog o'r achos Undodaidd —yn Tylorstown, Clydach Vale, a chyn hyny yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, lle y dygwyd ef i fyny. O fore ei febyd cafodd ei ddwyn i fyny mewn cysylltiad a'r achos, a bu'n ffyddlawn iddo drwy'r blynyddoedd, gan fynychu'r Ysgol Sul a'r addoliad yn rheolaidd. Bu'n olynol yn llanw'r swydd o athraw, ysgrifenydd, ac arolygydd yr Ysgol Sul ; yn aelod gwerthfawr o'r Ysgol Gân, lle'r oedd ei ddylanwad bob amser yn nghyfeiriad heddwch. Ni chlywyd son erioed am Joseph Jenkins yn pwdu, fel y mae'r arfer yn rhy gyffredin yn mhlith cantorion. Bu'n ysgrifenydd y gynulleidfa o'r adeg yr ymddiswyddodd y brawd anwyl, Eiddil Cynon, nes symud o hono o'r lle, ryw ddeg neu ddeuddeg mlynedd yn ol. Yr oedd Mr. Jenkins yn un o'r dynion mwyaf serchog, hawddgar. mwyn a charedig, ellid gwrdd mewn siwrnai diwrnod. Perchid ef gan bawb a'i hadwaenai, a chan y rhai hyny yn fwyaf a'u hadwaenent yn oreu. Gedy ar ei ol, mewn galar tost, weddw a chwech o blant, pump merch a bachgen, yr ieuengaf tua 12 oed. Eiddunwn i bob un o honynt nawdd Duw a'i dangnefedd ; bydded iddynt nerth yn ol eu hangen, a help i orchfygu pob anhawsder, ac i rodio taith bywyd mewn tangnefedd a chariad ar lwybr uniondeb a gwir grefydd. Bore Mercher, dygwyd y corff o Bournemouth i Aberdar, lle'r oedd llu mawr iawn o gyfeillion a chydnabod o bell ac agos wedi dyfod yn nghyd i ddangos eu parch i'r ymadawedig. Wrth orsaf y *T.V.R.* ffurfiwyd yn orymdaith ac aethpwyd i'r *Cemetery*, lle y darllenwyd ychydig eiriau o'r Ysgrythyr gan y Parch. D. Rees, Penbont, ac wedi i'r Parch. R. J. Jones draddodi anerchiad byr a myned i weddi, darllenwyd gwasanaeth *Clwb y Buffaloes* gan y Caplan, y Parch. Mr. Beynon, ciwrad St. David's, Ton, Ystrad, a therfynwyd trwy ganu yr hen emyn, "Bydd myrdd o ryfeddodau." Gwelsom y gweinidogion canlynol hefyd yn bresenol, a buasai yn bleser genym pe'r hin ac amgylchiadau erailI yn caniatau, glywed pob un o honynt yn dywedyd gair—Hathren, Rhoslwyn Davies, Kane, D. J. Evans, J. F. Short.

"'*Tis sorrow builds the shining ladder up,*
Whose golden rounds are our calamities,
Whereon our firm feet planting, nearer God
The spirit climbs and hath its eyes unsealed."

RHAGFYR 2, ar ol oddeutu wythnos o gystudd, bu farw Margaret Evans, Abercerdinen, plwyf Llanbedr, yn 82 oed. Benyw dawel, garedig, oedd yr ymadawedig, a pherchid hi gan bawb a'i hadwaenai. Perthynai i deulu sydd wedi chwareu rhan flaenllaw ac anrhydeddus mewn cysylltiad a'r achos yn Capelygroes er ei sefydliad, ac er ei bod hi wedi ei hanalluogi i fynychu'r addoliad er's blynyddau bellach, yr oedd yn agos at ei chalon er hyny. Y Sadwrn canlynol hebryngwyd yr hyn oedd farwol o honi gan dyrfa luosog i gladdfa Capelygroes. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies.

RHAGFYR 6, yn nhŷ ei mherch, Cross Keys, ger Risca, Anne Price (enw morwynig, Jones) gweddw (1)

T. H. Evans, Cardiff Castle Hotel, Aberdare ; (2) David Rees, Wattstown. (Gweler YMOFYNYDD 1901, t. 47). Claddwyd dydd Iau yn nghladdfa gyhoeddus, Aberdar ; y Parch. R. J. Jones, M.A., yn gwasanaethu. (1 Thess. iv. 13).

RHAGFYR 9, Mrs. Rees, Felindre, Pencarreg, yn 60 mlwydd oed. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Mr. Adams, B.A., Llanbedr, yn cael ei gynorthwyo gan ereill. Gadawodd chwech o blant a pherthynasau eraill lawer i mewn galar dwys ar ei hol.

RHAGFYR 9, yn 33 oed, Mary Hannah, anwyl wraig John Jones, Rhydowen Mill, Llandyssul, ac arweinydd y gân yn Llwynrhydowen. Gwanaidd oedd ei chyfansoddiad erioed, ond yr oedd gwên bob amser ar ei gruddiau. Menyw serchog a chroesawus oedd yr ymadawedig yn ei chartref, a distaw a thawel mewn cymdeithas. Yn ystod ei chystudd olaf—ac oedd hwnw yn un caled iawn—cafodd bobpeth fedrai priod, mam, chwaer, a chyfeillion wneud, ond ymadael oedd raid gan adael llu i wylo ar ei hol. Yn ychwanegol at yr uchod mae brawd a dau blentyn bychan wedi eu gadael i fyw hebddi, ac yr ydym yn hyderus y bydd Tad yr amgylchiadau yn dyner wrthynt. Y Sadwrn canlynol daeth torf luosog o berthynasau a chyfeillion i'w hangladd, pryd y claddwyd yn Pantdefaid, lle y buasai yn aelod ffyddlon hyd y diwedd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Arthur Thomas, yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins, ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca. Y Sul canlynol pregethodd y Parch. E. O. Jenkins bregeth angladdol yn y Llwyn.

RHAGFYR 17eg, yn y Victoria Hotel, Ferndale, Anne Tydien, ail ferch y diweddar Mr. Joseph Jenkins (a fu farw Tachwedd 28) yn 20 oed. Yr oedd wedi nychu am yn agos naw mlynedd, a dioddefodd yr oll gyda gostyngeiddrwydd ac amynedd gwir Gristionogol. Y mae wedi gadael hiraeth mawr ar ei hol. Gwasanaethwyd yn Ferndale gan y Parch. D. Rees, Bridgend, ac ar lan y bedd yn *Cemetery* Aberdar gan y Parchn. D. Rees, Evans, Cwmbach, ac R. J. J.

" *We long for household voices gone,*
For vanished smiles we long ;
But God hath led our dear ones on,
And He can do no wrong."

MANION AC HANESION.

DOWLAIS.—Dydd Iau, Tachwedd 19, cynhaliwyd Tê Parti blynyddol yr eglwys uchod. Cafwyd tywydd dymunol trwy y dydd a chynulliad lluosog o ewyllyswyr da. Cawsom y fantais o weled gwynebau a siglo llaw a llawer câr a chyfaill o wahanol ardaloedd, yn weinidogion a brodyr, o Cwmbach, Aberdar, Cefncoed, a Merthyr Tydfil. Cawsom brawf ychwanegol o garedigrwydd a brawdoldeb y gwahanol enwadau yn y lle tuag atom. Diolch iddynt.

CAERDYDD.—Rhagfyr y 6ed a'r 7fed, sefydlwyd y Parch. W. Whitaker, B.A., yn weinidog ar yr eglwys yn West Grove, ac olynydd i'r Parch. J. Tyssul Davis, B.A., yr hwn sydd wedi ymsefydlu yn Chatham. Bu Mr. Whitaker yn weinidog

yn Leicester am saith mlynedd, a llafuriodd yno gyda llawer o lwyddiant a chymeradwyaeth. Cymerwyd rhan yn y cyfarfodydd gan y Parchn. Henry Gow, B.A., Hampstead; Dr. Warschauer, M.A., Proff. Weatherall, M.A., R. J. Jones, M.A., H. Fisher Short, W. J. Phillips, David Rees, David Evans a llawer o leygwyr adnabyddus. Una Yr Ymofynydd i gyflwyno i Mr. Whitaker ei ddymuniadau da a chroesaw calonog i Gymru.

Trebanos.—Sul a Llun, Rhagfyr 13 a'r 14, cynhaliwyd cyfarfodydd jiwbili yr eglwys uchod. Traddodwyd y genadwri gyda chymeradwyaeth cyffredinol gan y Parchn. David Rees, Bridgend a H. S. Williams (A.), Tabernacl, Pontardawe. Arwydd o iechyd yw fod Mr. Williams wedi cydsynio a'n cais. Yr ydym fel enwad wedi arfer bod yn rhyddfrydig—diolch am wel'd arwyddion o ryddfrydiaeth o du ein cymydogion. Eled yr yspryd rhagorol hwn ar gynydd. Nos Lun cafwyd adroddiad cryno a phwrpasol o weithgarwch yr eglwys, yn nghyd a chydymdeimlad ffryndiau, gan y brawd caredig D. Davies, Gellionen; a siaradwyd ychydig eiriau pwrpasol gan y gweinidog ar ddiwedd y gwasanaeth. Er ein bod wedi clirio y ddyled ar y capel, eto amcanwn adeiladu *Vestry* eang yn ymyl y capel ar unwaith. Yr ydym yn credu yn yr egwyddor o dori tir newydd o hyd; a hyny yn benaf am fod gan y bobl galon i weithio. Ein gweddi yw am fendith ein Tad i aros ar ein hymdrechion.

"Pwlpud Annibynol Cerediglon."—Cyfrol o dair ar ddeg ar hugain o bregethau, gan yr un nifer o weinidogion yr Anibynwyr yn Ngheredigion ydyw'r llyfr ag iddo'r teitl uchod. Golygwyd ef gan y Parch. J. T. Parry, Cilcenin, ac mae ar werth ganddo am haner coron. Mewn cyfrol fel hon, naturiol ydyw disgwyl amrywiaeth mewn arddull, medr a barn. Y mae darlleniad o honi wedi rhoddi i ni lawer iawn o fwynhad, am yr adwaenem gan mwyaf yr oll o'r ysgritenwyr, a chlywsom lawer o honynt yn pregethu. Dechreua'r gyfrol yn darawiadol gan bregeth o eiddo y diweddar Barch. T. Pennant Phillips, Llandyssul. Mae y bregeth yn wir nodweddiadol o hono. Ceir ynddi y cyffyrddiadau tyner a barddonol hyny oedd mor amlwg yn ei holl bregethau, a gwisgir y cyfan gan brydferthwch y blodau. Pregeth ag y perthyna llawer o newydd-deb a rhesymoldeb iddi ydyw yr un sydd gan y Parch. T. Gwilym Evans, Aberayron. Nodir hi gan lawer o feddyliau na cheir mo honynt mewn casgliad o bregethau fel hyn. Gofod balla i ni sylwi ar lawer o bregethau ddymunem, ond synir ni wrth ddarllen rhagymadrodd pregeth y Parch. P. H. Lewis, Gwyddgrug. Arferem feddwl erioed fod yr Annibynwyr ar y blaen o'r holl enwadau Iawnffyddol mewn syniadaeth Feiblaidd. Yn ei ragymadrodd gwel Mr. Lewis gyfeiriadau at Iesu Grist bron yn mhob adnod o Ganiad Solomon. Dywed y rhai sydd wedi gwneud Beirniadaeth Feiblaidd yn brif astudiaeth eu bywyd, mai "Cân serch ydyw Caniad Solomon, a dim arall." Digon yw cyfeirio at erthygl Rothstein yn Ngeiriadur Beiblaidd Hastings, ac Ysgrythyrau yr Hen Destament gan y Proff. Witton Davies, Bangor. Er hyny mae yn bleser genym alw sylw at y gyfrol hon, am fod tueddiad yr oll at ddyrchafu a dwyfoli bywyd ar y ddaear.

Dyrchafiad.—Bydd Undodiaid yn mhob man yn llawenhau wrth glywed y newydd ddaeth o America yn ddiweddar. Ymddengys fod yr hybarch weinidog Undodaidd a'r llenor adnabyddus Dr. E. Everett Hale, o Boston, wedi ei ethol gan y Senedd yn Washington i fod yn gaplan i'r tŷ hwnw. Ni ellid gosod anrhydedd uwch ar weinidog unrhyw enwad. Bydded i Dr. Hale gael iechyd a nerth am flynyddau lawer i wasanaethu ei wlad drwy y swydd anrhydeddus a chysegredig mae pobl yr Unol Dalaethau drwy eu cynrychiolwyr wedi ei osod ynddi.

TRYSORFA ADEILADU BRONDEIFI.—Cydnabyddwyd eisioes, 1,442*l.* 2s.; Mrs. Price, Chepstow, 5*l.* ; A Friend, 3*l.* 3s. ; T. Fielding Johnson, Leicester, 2*l.* ; Miss M. C. Martineau, London, 2*l.* 2s. ; Casgliad Panteg, per Rev. J. Williams, 1*l.* ; Evan Jones, London, 1*l.* 1s. ; E. Jones, Ceginan, Llandyssul, 1*l.* ; W. E. Nanson, Eccles, 1*l.* ; Dudley Morgan, N. P. Bank, Lampeter, 1*l.* 1s. ; Daniel Watkins, Solicitor, do., 1*l.* 1s.; Rees Jones, Tregaron, 1*l.* ; Mrs. Morgan B. Williams, Swansea, 1*l.* 1s.; W. Haslam, Bolton, 1*l.* ; Professor Walley, Aberystwyth, 1*l.* 1s. ; Miss Jones, Union, Lampeter, 1*l.* ; Mrs. J. B. Lloyd, Liverpool, 1*l.* ; Mrs. Bowman, Bolton, 1*l.* ; The Misses Jones, Barnet, 1*l.*; R. C. Potter, Manchester, 1*l.* 1s. ; Mrs. H. R. Greg, do., 1*l.* 1s.; H. Rees, Talfoel, near Lampeter, 1*l.* 1s. ; M. Evans, Wern cottage, Cellan, 10s. 6d. ; J. Lloyd Morgan, M.P., 10s. 6d. ; Mrs. Jones, Bryn road, Swansea, 10s. 6d. ; Walter Jones, Chemist, Aberdare, 10s. 6d. ; Rees Jones, Cwmtaf, 10s. 6d. ; Wm. Healey, Heywood, 10s. 6d. ; Dd. Healey, do., 10s. 6d. ; Mrs. Jones, Cwmere, Talsarn, 10s. 6d. ; Thos. Evans, Castelldu, Llanwnen, 10s.6d.; Dd. Davies, Llanarth, 10s. 6d.

CONGL YR AWEN.

CAN Y PEDWAR GWYNT.

[*Efelychiad o benillion Thomas Love Peacock.*]

Gwynt y gogledd : ar y ddol
Gwanwyn âd eu heulog ôl :
Clyw y delyn lawen gân,
A dawns meib a merched glan :
Cana'r fronfraith yn y llwyn :
A'r yfwr gân 'Lân meddwdod mwyn.'

Gwynt y dwyrain : tawel glàn :
Gâd cymylau'r bryniau ban :
Mae'r nant dan rew ac eira mân :
Goleuo'r tŷ mae'r goelcerth tân :
Mae gwledd y tywysog ar y bwrdd :
Yf llawer ffol ei synwyr ffwrdd.

Gwynt y de : yn y cyhudd
Cân y delyn melus fydd :
Hyfryd gamrau geneth hardd
Ddêl a'r cwpan oer i'r bardd :
Y frân ddu at y gelain hed :
A'r fuches tua'r cysgod red.

Gwynt y gorllewin : Hydref fôr
Balch ymgoda'n donog gôr :
Gwyliwr y morglawdd grŷn mewn ofn
Rhag ymchwydd gwyn y weilgi ddofn :
Rhag llifo'r don y dolau ir
Ac erwau gwyrdd y gwastad dir.

YN Y NIWL.

A fyni di ryfeddu
Ac ocheneidio'n brudd,
Am nad wyf fi yn meddu
Dy gyflawn Gyffes ffydd !

'Rwy'n galw am y goleu
Bob nos yn ddinacâd ;
A thithau er's blynyddau,
Yn byw ar wir dy dad.

Ond gwn, er cred anaddfed,
Nad ofer im fu byw ;
Nid ofer ymdrech galed
Am oes i geisio Duw.

Dewiswn ei wynebu
Heb ddim ond awydd dwys,
Na myned, heb ei chredu,
A chyffes ffydd yn bwys.

Ac os na welaf seren
Nes imi ei weled Ef,
Yn nghanol nos a niwlen
Caf fwy na thi o nef.

GWILI.

Awarded a
Diploma of Merit of the
First Class for
Knowledge of Tailoring
and Skill in Cutting
by
T. D. Humphreys, M.A.,
Ph.D. ;
and Two Years Cutting
at
Lush's, Pontypridd.

W. JONES,

Civil, Military, & Clerical Tailor,

Hatter, & Gent's Mercer,

LINCOLN HOUSE,

LLANDYSSUL.

We are well prepared for Autumn and Winter with a Select

Stock of Overcoats, Rainproof Coats & Mackintoshes

In all sizes and patterns.

Prices : 10/-, 12/6, 15/-, 20/-, 25/-, 30/-, and upwards.

LLANDYSSUL COUNTY SCHOOL

(FOR BOYS AND GIRLS).

Head Master: WILLIAM LEWIS, M.A., Cantab.
Late Foundation Scholar and Prizeman of Queens' College Cambridge; wrangler 1890

MISTRESSES :

Miss S. A. Jones, C.M. ; Miss Myfanwy Jones, B.A., Honours, Wales.

Classics and Modern Languages : J. Keble Hudson, M.A. (Oxon.).
Late Open Classical Scholar of Wadham College Oxford ; 1st Class in Lit. Hum., 1890.

Science : T. J. Evans, B.A., (Oxon.).
Late Scholar of Jesus College Oxford ; Honours in Natural Science ; Naples Research Scholar of the University of Oxford ; Inter. B.Sc., Lond

Drawing : Wm. Jones, A.R.C.A., (Lond.), of the Carmarthen School of Art.

Instrumental Music : Miss Delia Williams, L.L.C.M.

Vocal Music : Rev. T. Arthur Thomas.

Laundry and Cookery : Miss E. W. Williams.
First Class Diplomas in Laundry and Cookery

This year's successes : 4 London Matriculation (1st Div.), 2 Rendel Scholarships, 2 U.C.W. do. 1 County do., 1 Agricultural do. U.C.W., 1 Science Scholarship Lampeter College (Open). 2 King's Scholarships. Pupils of this School are now holding Scholarships at Oxford Aberystwyth and Lampeter to the value of £881.

Tuition Fee: £1 per Term or 3 per Annum. Music Pianoforte) £1 1s. per Term
Boarding Fees: Terminal £9 per Term ; Weekly, £6 per Term.

Thos. Jones & Son, Llandyssul,

Have the Largest Stock and Best Selection of

BOOTS AND SHOES

In the Town.

Men's from 3/6 to 17/6; Ladies' and Children's from 1/11 to 12/6.

Sole Agents for the well-known

HOLD-FAST BRAND.

Thousands of Testimonials.

Hand-sewn made to measure. Repairs neatly done & cheap.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

BEST MACHINE OIL 2s. per gallon.

ALBION, ✪ LLANDYSSUL.

Bedsteads from 15s. to 45s.
Wool Beds, 15s. each.

GRIFFITH DAVIES.

Boots and Shoes of Every Description.

Splendid Value and Special Attention given to this Department.

BEST MACHINE OIL 2s. per gallon.

STEAM SAW MILLS, LAMPETER

DAVID DAVIES, TIMBER MERCHANT.

ALL KINDS OF FOREIGN TIMBER, DEALS, BOARDS, SKIRTINGS AND MOULDINGS.

SLATES, BRICKS, FLOOR TILES AND PIPES KEPT IN STOCK AT LOWEST PRICES.

Cambrian Factory, Lampeter.

DAVIES BROS.'
BOOTS & SHOES

ARE POPULAR IN ALL TOWNS.

WHOLESALE AND RETAIL.

HYACINTHS, TULIPS, CROCUS, DAFFODILS & OTHER DUTCH BULBS AND FLOWER ROOTS

Imported direct by

HARRY COYSH, SEEDSMAN & FLORIST, NOTT SQUARE, **CARMARTHEN.**

Fruit Trees, Roses, Ornamental Trees and Shrubs, Climbers, &c., &c.
Wreaths, Crosses, Wedding and other Bouquets, &c.
Seedling and Named Carnations, Margaret Carnations, Wall Flowers, Brompton and Victoria Winter Flowering Stocks, Iceland Poppies, Forget-Me-Nots, &c., &c. . . A Large Stock of Sankey's Celebrated Flower Pots as supplied King Edward VII.
Gardens and Pleasure Grounds laid out and planted.

H.C. has had over 25 years' practical experience in Home and Foreign Nurseries, including the world-renowned Royal Nurseries and Seed-growing Establishment of Ghent, Belgium, the most complete in the world.

Seed & Bulbs Lists, Tree & Shrub Catalogues Free.

Llysfaen House, Llanybyther.

DAVID ⊛ EVANS,

Draper, Grocer, Corn, Flour and Seed Merchant.
Ironmonger and Implement Agent.

A Large Assortment of Men's, Youths' and Boys' Ready-Made Suits and Overcoats.
Suits and Overcoats made to measure.

Henry Thomas's Emporium

2, GUILDHALL SQUARE,

. . CARMARTHEN.

DEPARTMENTS:

Mantles, Millinery, Flowers, Ladies' and Children's Outfitting.	Gloves, Hosiery, Skirts, Blouses, Corsets, Ribbons, Lace, Trimmings.	Linens, Sheetings, Calicoes, Prints, Curtains, Haberdashery, Dress Materials, Silks.

Dress and Costume Making a Speciality.

TIMBER YARD & STEAM SAW MILLS

LLANDYSSUL.

The Llandyssul Timber & Slate Co.

LARGE STOCKS ALWAYS ON HAND OF

Red, Spruce and Yellow Pine Deals.
American Oak Coffin Planks and White Wood Boards.
Red and White Matched & Plain Boards.
Flooring & Walling Bricks, Socket Pipes, Junctions, Bends, &c.
Stone Sills and Flags.
Carnarvon Red Slates.

INSPECTION INVITED. ORDERS PROMPTLY EXECUTED.
SOLICITING YOUR ESTEEMED COMMANDS.

Farmers, you require Implements and Machinery for your work. Come for them where your interests are studied all the year. The best place in South Wales for

AGRICULTURAL IMPLEMENTS

IS

Eynon Thomas' Stores,

At Implement Works, Llanybyther,

AND DEPOTS AT LAMPETER & TREGARON MARKETS

Also a Large Assortment of all Kinds of Agricultural Implements of the Best Makes. Extra Fittings for all Makes. Every Article warranted to a full test. Any faulty parts will be replaced free.

I also manufacture on the Premises, Horse Gears, Cheese Presses, Curd Mills, Saw Mills. All kinds of Brasses, unfinished or finished, and Ordinary Repairs by Modern Machinery and Experienced Workmen.

Specialities—Water Wheels, Threshing Machines, Brass Work, Acetylene Gas and Electric Fittings.

Easiest Terms, Low Prices. Inspection and Enquiries Invited.

Note Address—

Eynon Thomas, Implement Works, Llanybyther.

LEONARD C. FARLEIGH, Llandyssul, S.W.,

The Largest Importer of Royal Daylight Petroleum in South West Wales.

Free Delivery per Tank Wagon within a Eight Mile Radius.

A Large Selection of Oil Storage Tanks in Stock, from 10 to 200 gallons.

Advantages of having Petroleum delivered per L. C. F.'s Tank Wagon: 1. The Petroleum delivered free per Tank Wagon, and measured into your Casks at your door. 2. No leakage or waste, and none of the heavy expense of carting from Station. 3. The Petroleum is of superior quality, as it comes direct from the ship's side to me. 4. Prices will show an advantage from what you would pay in Bristol.

Your inquiries would be esteemed by yours truly,

LEONARD C. FARLEIGH,

The largest Oil Importer in South West Wales.

SWANSEA. 1904. SWANSEA.

BEN EVANS & CO'S.

Great Winter Sale

WILL COMMENCE ON

Saturday, January 2nd, 1904,

AND CONTINUE

DAY BY DAY THROUGHOUT THE MONTH

Best Possible Value in Every Department.

Illustrated Catalogue of Bargains
. Post Free. .

Ben Evans & Co., Ltd.,

Swansea.

Telegrams—
"EVANS," SWANSEA.

Telephone—
No. 28.
Municipal and
National